



Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Trawsnewid llywodraeth leol yng Nghymru

Rhan 1: Archwilio'r dystiolaeth
Papur gwaith

Rob Ashelford
Mawrth 2026

Ein Cenhadaeth

Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn rhoi tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol awdurdodol i weinidogion, uwch lunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i ganfod ymatebion polisi effeithiol ac atebion ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar amrywiaeth eang o heriau polisi ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu syniadau newydd o ran llesiant cymunedol, yr amgylchedd a sero net, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi o bob cwr o'r byd ac mae'n defnyddio ei waith gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu dealltwriaeth o lunio a gweithredu polisiâu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'n arfogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith What Works y DU a Rhwydwaith Ymgysylltu â Pholisi'r Prifysgolion.

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth: www.wcpp.org.uk/cy/

Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC)** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.



Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

Cynnwys

Introduction	6
The context for change	6
How might local governments perform differently by 2035?	10
It is exercising its functions effectively	11
It can use its resources economically, efficiently and effectively	16
Its governance is fit for purpose to deliver the two things above	21
Creating a sustainable innovation programme for local government	25
A more stable operating environment	27
Making the best use of the knowledge we already have	29
Developing new knowledge	32
Recommendations	33
By April 2027	34
By 2031	35
By 2035	37
References	39
Annex	47

Crynodeb

- Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu cyfuniad o bwysau na welwyd eu tebyg o'r blaen o bwysau: cyfyngiadau ariannol, newid demograffig, cynnydd yn y galw a dirywiad yn ymddiriedaeth y cyhoedd. Er bod cynghorau wedi dangos gwytnwch a chreadigrwydd wrth gynnal gwasanaethau craidd, mae'r model presennol o lywodraeth leol yn dal yn fregus ac yn fwyfwy anghynladwy. Nid yw enillion effeithlonrwydd graddol bellach yn ddigon i gwrdd â maint yr heriau sydd o'n blaenau.
- Mae tystiolaeth o Gymru, y DU yn ehangach ac arferion rhyngwladol yn dangos bod cynnydd yn bosibl pan mae llywodraeth leol yn buddsoddi ar y cyd yn ei gallu i ddysgu, arloesi a chynllunio ar gyfer y tymor hir.
- Ar draws pob agwedd ar berfformiad llywodraeth leol, gan gynnwys effaith, y defnydd effeithlon o adnoddau a llywodraethu digonol, mae lleoedd eisoes yn defnyddio meddylfryd arbrolfol i ddatblygu, profi a rhoi syniadau newydd ar waith.
- Mae'r fframwaith perfformiad hwn, sydd wedi'i nodi mewn deddfwriaeth ac sy'n debygol o barhau i fod yn sylfaen gadarn ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, yn darparu man cychwyn cryf ar gyfer meddwl am yr hyn sy'n dod nesaf.
- Mae perfformiad llywodraeth leol yn canolbwyntio ar orwelion amser byr iawn, wedi'u sbarduno gan gyfyngiadau cyllidebol a galw cynyddol am wasanaethau adweithiol. Ac eto, dim ond dros

gyfnod hir y gall y newidiadau a fydd yn arwain at fwy o gynaliadwyedd ddigwydd. Bydd angen i arweinwyr sy'n arwain eu sefydliadau drwy'r her hon ystyried bod y ddwy senario hyn yr un mor bwysig. Mae model y Tri Gorwel yn darparu fframwaith ar gyfer gwneud hyn, ac mae'r adroddiad hwn yn dangos sut y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu gweledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru a rheoli'r newid o'r presennol i'r dyfodol.

- Mae'r papur hwn yn dadlau bod trawsnewid ystyrion, sy'n arwain at ddyfodol mwy cynaliadwy i lywodraeth leol, yn gofyn am dri cham gweithredu cydgysylltiedig:
- Gweledigaeth gyffredin o sut beth yw llywodraeth leol gynaliadwy. Heb hyn, ni ellir cynllunio na darparu strategaeth na diwygio'n effeithiol.
- Mabwysiadu model Tri Gorwel fel fframwaith ar gyfer trawsnewid. Mae'r dull hwn yn caniatáu i systemau presennol barhau i weithredu tra bo modelau ar gyfer y dyfodol yn cael eu profi a'u tyfu, gan sicrhau parhad gwasanaeth, dysgu trylwyr ac ymrwymiad i ddyfodol gwahanol.
- Ailadeiladu capasiti arloesi drwy strwythur cydweithredol, aml-gyllid. Byddai hyn yn adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o flynyddoedd cyntaf Swyddfa Technoleg ac Arloesi Llundain (LOTI), a byddai'n cael ei ariannu a'i lywodraethu ar y cyd gan lywodraeth leol, CLILC a Llywodraeth Cymru.

- Daw'r papur i ben gyda galwad i ymgorffori'r tair colofn hyn mewn rhaglen drawsnewid gydlynol erbyn

2027, gan osod y sylfeini ar gyfer system gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y dinesydd erbyn 2035.

Cyflwyniad

Yn ystod haf 2025, cysylltodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru â newyddnew i gynnal ymchwil i'r dystiolaeth ynghylch trawsnewid llywodraeth leol ac i gynnig argymhellion ar sut y gallai llywodraeth leol yng Nghymru gynnal ymarfer trawsnewid sy'n arwain at ddyfodol mwy cynaliadwy. Y papur gweithio hwn yw Rhan 1 yr ymchwil. Mae'n amlinellu rhaglen waith ailadroddol a ddylai, yn ddelfrydol, gynnwys sesiynau ymarferol i archwilio'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sydd ddim yn gweithio, ac i alluogi addasu mewn ymateb i hyn. Mae Rhan 1 yn darparu'r sail ar gyfer sgysiau ac ymchwil archwiliadol a gyflwynir yn adroddiad y gweithdy, Rhan 2: Profi ein mannau cychwyn.

Y cyd-destun dros newid

Gan gydnabod yr angen brys am newid mewn llywodraeth leol, daeth grŵp o brif weithredwyr at ei gilydd yn 2022 i fapio dull gweithredu newydd ar gyfer llywodraeth leol yn yr Alban (Gwasanaeth Gwella, 2022). I arwain eu gwaith, gofynnwyd dau gwestiwn allweddol:

- Sut mae cynghorau'n trawsnewid o ddull sy'n seiliedig yn bennaf ar ddarparwyr gwasanaethau i ddull sy'n hyblyg, yn gydweithredol ac yn greadigol, sy'n cael ei lywio gan fandadau democrataidd lleol cryf sy'n rhoi pobl a chymunedau wrth galon newid?
- Sut mae cynghorau'n newid i batrwm newydd, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, yn agnostig o ran cyflawni, ac yn golygu bod ganddynt weledigaeth strategol gyda dinasyddion ac ar eu cyfer, i lunio canlyniadau economaidd a chymdeithasol sy'n deg i bawb?

Mae'r cwestiynau hyn yn bwysig am eu bod yn gwneud dau beth. Yn gyntaf, maent yn cydnabod tair elfen graidd (Randle a Studdert, 2025) y mae'n rhaid i lywodraeth leol eu hystyried:

- Y lleoedd y maent yn gyfrifol amdanynt ac anghenion y bobl sy'n byw yno;
- Sut maent yn gwneud y defnydd gorau o'u hadnoddau; a
- Ble mae grym ac atebolrwydd i'w gael.

Yn ail, maent yn pennu cyfeiriad, mewn geiriau eraill gweledigaeth. Er mwyn cynllunio rhaglen o weithgareddau sy'n cefnogi arloesedd a thrawsnewid mewn llywodraeth leol, yng Nghymru neu mewn mannau eraill, mae angen i ni fod yn glir

ynghylch y cyfeiriad rydym yn mynd iddo a sut beth yw'r 'trydydd gorwel' (International Futures Forum, dim dyddiad) rydym yn anelu ato.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym weledigaeth glir sydd wedi'i mynegi'n dda ynghylch sut bydd llywodraeth leol yn perfformio'n gynaliadwy yng Nghymru yn y dyfodol.

Yn eu papur agoriadol (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2025) nododd y gweithgor a gynullwyd gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru eu dealltwriaeth o ddiben a swyddogaethau llywodraeth leol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae hyn yn adlewyrchu'r sefyllfa bresennol yn hytrach na gweledigaeth radical ar gyfer y dyfodol.

Mae'n tynnu sylw at rôl llywodraeth leol fel darparwr gwasanaethau o'r brig i lawr. Mae aelodau etholedig yn cynrychioli barn eu hetholwyr ac mae cynghorau'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. Nid oes datganiad penodol o fwriad ynghylch cynnwys dinasyddion yn y broses o wneud penderfyniadau na chyd-ddylunio a darparu gwasanaethau, er bod awgrym o hyn mewn datganiadau ar gydweithio a chydlynu.

Mae'n edrych ar yr awgrym y gallai rhai gwasanaethau gael eu darparu'n well gan sefydliadau neu bartneriaethau eraill. Fodd bynnag, ni fyddai symud y gwasanaethau hyn i rywle arall yn debygol o'u gwneud yn gynaliadwy dros y tymor hir.

Lle gwelwn fwy o gysondeb rhwng y papur agoriadol a'r weledigaeth gliriach a fynegir yn yr Alban yw yn yr hyn y mae gweithgor Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn ei ddisgrifio fel 'goblygiadau' y model presennol. Mae symud tuag at atal; bod yn fwy galluogol a chyfunol; datblygu gwerthoedd, ymddygiadau, capasiti a galluedd newydd; ac adfywio democratiaeth leol i gyd yn cyfeirio at sut y gallai llywodraeth leol berfformio'n wahanol yn y dyfodol i fynd i'r afael â'r problemau sy'n cael eu creu gan fodel anghynaliadwy.

Mae'n bwysig datgan nad yw'r papur hwn yn ceisio gosod gweledigaeth hirdymor ar gyfer lleoedd nac anghenion pobl, ac nid yw cwestiynau'r Alban yn gwneud hynny ychwaith. Prif bwrpas llywodraeth leol yw democratiaeth leol, felly dylai lleoedd lleol osod eu gweledigaethau eu hunain, ac yng Nghymru mae hyn eisoes yn digwydd i ryw raddau drwy gynlluniau llesiant lleol (Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, 2023).

Fodd bynnag, gallwn ddechrau amlinellu gweledigaeth ar gyfer sut y gallai llywodraeth leol berfformio'n wahanol i fod yn gynaliadwy yn y tymor hirach, a sut y gallem gefnogi llywodraeth leol i ddatblygu a phrofi'r dulliau perfformiad newydd hyn. Dyma beth mae cwestiynau'r Alban yn dechrau mynd i'r afael ag ef, gan ganolbwyntio ar y newid o fod yn ddarparwr gwasanaeth i fod yn fwy hyblyg,

cydweithredol a chreadigol, ac i batrwm newydd sydd â gweledigaeth strategol ar gyfer a gyda dinasyddion.

Felly, sut gallai hyn edrych i Gymru? Sut mae gosod gweledigaeth ac, yn bwysicach, sut mae cyrraedd yno?

Mae'r ymchwil a'r argymhellion sy'n dilyn yn adeiladu ar y goblygiadau hyn a'r bwriad yw eu bod yn fan cychwyn ar gyfer sgysiau pellach ynghylch sut gallai fersiwn gynaliadwy o lywodraeth leol berfformio yn y dyfodol. Ein bwriad yw eu bod yn gweithredu fel damcaniaethau y gellir eu profi i'n helpu i ddeall yn well sut y gallai hyn edrych, beth sy'n dderbyniol ac yn angenrheidiol, a beth sydd ddim yn dderbyniol ac yn angenrheidiol.

Mae'r papur yn defnyddio fframwaith perfformiad presennol Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'y ddeddf'), sy'n debygol o fod yn angor sefydlog ar gyfer perfformiad llywodraeth leol yn y tymor byr i ganolig. Rydym wedi gosod terfyn amser o 2035, gan fod hyn yn mynd â ni drwy'r ddau gylch etholiadol nesaf ar gyfer llywodraeth leol (2027 a 2031). Mae hwn yn gyfnod digon hir i newid fod yn bosibl, ond nid mor hir fel ei fod yn teimlo'n ddiystyr.

Yn olaf, dylem hefyd gofio bod tair agenda trawsnewid a allai fod yn gyflenwol y mae angen eu hystyried, sydd naill ai wedi'u nodi neu eu hawgrymu yng nghwestiynau'r Alban, er na fu'n bosibl archwilio'r tair yn fanwl:

- Sut rydym yn trawsnewid y ffordd mae llywodraeth leol yn perfformio;
- Sut mae angen i'r amgylchedd galluogi y mae'n perfformio ynddo newid; a
- Sut rydym yn trawsnewid rôl y dinesydd yn unol â'r newidiadau hyn.

Mae tirwedd llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus yn ehangach yng Nghymru yn gymhleth, felly ni fu'n bosibl bod yn gynhwysfawr yn ein hymchwil a'n hasesiad o beth sydd angen digwydd na sut rydym yn sicrhau newid. Bydd hepgoriadau a gwallau.

Model y Tri Gorwel

Rhaid i ni gydnabod rhai gwirioneddau cyn i ni ddechrau ar y gwaith hwn:

- Yn gyntaf, mae newid yn cymryd amser, ac ni allwn ddiffodd y system bresennol. Bydd unrhyw drawsnewid i fodel gweithredu newydd ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru yn gofyn am amynedd, wedi'i gefnogi gan gynnydd gweladwy sy'n adeiladu momentwm.

- Yn ail, mae angen inni gael syniad clir o ble rydym yn ceisio mynd. Dylai hon fod yn weledigaeth sy'n briodol i Gymru, ein cyd-destun, ein strwythurau llywodraethu a'n heriau.
- Yn drydydd, mae angen i ni allu cynnal y weledigaeth hon ar gyfer y dyfodol ochr yn ochr â'n cyd-destun presennol a phenderfynu sut rydym yn adeiladu pont rhyngddynt wrth i ni symud ymlaen.

Mae model y Tri Gorwel (NPC, 2024), a ddatblygwyd gan y dyfodolwr Bill Sharpe fel fframwaith ar gyfer datblygu gweledigaeth ar y cyd a chynllun ar gyfer symud tuag ati, yn helpu i hwyluso hyn, gan ganiatáu i ni sefydlu'r canlynol yn well:

- Beth sy'n digwydd ar hyn o bryd sydd ddim yn gynaliadwy mwyach a beth sydd angen ei gadw (Gorwel 1);
- Y weledigaeth rydym yn anelu ati a pham y gallai hyn fod yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol (Gorwel 3); a
- Y gweithgareddau rydym ni'n mynd i'w gwneud i bontio rhyngddynt (Gorwel 2).

Mae'n fodel defnyddiol yn y sefyllfa hon oherwydd ei fod yn derbyn bod y ffordd bresennol o wneud pethau'n bodoli a'i fod yn debygol o barhau, yn rhannol o leiaf, ar ryw ffurf yn y dyfodol. Ar yr un pryd, mae angen datblygu, profi a gweithredu fersiwn newydd ar gyfer dyfodol. Ni allwn ohirio'r gwasanaethau y mae llywodraeth leol yn eu darparu wrth inni roi dulliau newydd ar waith, felly rhaid inni gadw'r presennol a'r dyfodol gyda'i gilydd wrth adeiladu momentwm ar gyfer newid.

Sut mae'r dyfodol yn edrych a sut mae hyn yn cynyddu'r angen am newid?

Mae llawer wedi cael ei ysgrifennu am y tueddiadau a fydd yn siapio'r deng mlynedd nesaf, i'r graddau nad oes angen i ni ailadrodd yr ymarfer hwnnw yma'n fanwl (Llywodraeth Cymru, 2021). Fodd bynnag, mae'n werth nodi sawl her hirdymor a fydd yn parhau i lywio perfformiad dros y degawd nesaf.

Mae'r tueddiadau presennol yn cynnwys cyllid cyfyngedig, wedi'i sbarduno gan dwf isel, pwysau chwyddiant a diffyg buddsoddiad hirdymor, newid demograffig a lefelau uchel o alw am wasanaethau. Er gwaethaf cynnydd cyllid o 4.5% yn 2025 i 2026, mae cynghorau'n wynebu chwyddiant parhaus, cynnydd yn y galw a chyfyngiadau cyllidol. Bydd poblogaeth sy'n heneiddio yn dwysáu'r pwysau ar ofal cymdeithasol a thai, tra bo prinder gweithlu yn parhau i fod yn ddifrifol, yn enwedig ym maes gofal cymdeithasol. Bydd cynnydd mewn digartrefedd a risgiau cynyddol o ran yr hinsawdd a llifogydd yn profi capasiti lleol ymhellach.

Bydd newidiadau technolegol, amgylcheddol a chyfansoddiadol hefyd yn ailddiffinio perfformiad. Mae ehangu seilwaith digidol yn cynnig potensial newydd ar gyfer arloesi mewn gwasanaethau ond mae'n cynyddu risgiau seiber a chynhwysiant. Er bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn parhau i lywio cynghorau tuag at wneud penderfyniadau hirdymor a chydweithredol, nid yw'n glir sut bydd llywodraethau lleol yn gwneud hyn yn gyson ac yn dda. Mae newidiadau i'r ffordd y mae Senedd Cymru yn gweithredu, gan ehangu mewn niferoedd ond byrhau'r cylch etholiadol, yn creu ansicrwydd ynghylch sut y gall llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru gynnal perthynas gref a chynhyrchiol.

Sut rydym yn delio a risg ac ansicrwydd

Mae angen i ni hefyd gydnabod bod y dyfodol yn ansicr a bod ymgymryd ag unrhyw drawsnewid yn cynnwys risg gynhenid. Ni allwn fod yn sicr y bydd pethau'n gweithio yn ôl y disgwyl. Fodd bynnag, mae angen inni hefyd dderbyn bod gwneud dim byd yr un mor beryglus, o ystyried y sefyllfa ddryys y mae llywodraeth leol yn ei hwynebu ar hyn o bryd. Gwyddom nad yw parhau fel rydym ni yn gynaliadwy.

Mae model y Tri Gorwel yn rhoi lle i ni reoli'r risg a'r ansicrwydd hwn, gan ystyried y presennol, y dyfodol a'r bont rhwng y ddwy fel elfennau o drawsnewid sydd yr un mor bwysig. Nid oes angen inni ollwng gafael nes inni ddatblygu a phrofi atebion posibl, ond mae'n rhaid inni gydnabod na allwn barhau fel rydym. Gall y ffordd rydym yn adeiladu ein pont newid wrth i ni ddysgu mwy am atebion posibl ac i ba raddau mae ein dyfodol disgwyledig yn dod i'r amlwg.

Mae gan hyn oblygiadau hefyd i berfformiad llywodraethau lleol yn y dyfodol. Mae angen i ni sicrhau bod y sefydliadau rydym yn eu dylunio ar gyfer y dyfodol yn fwy hyblyg a chydnerth, yn fwy ymatebol, ac yn gallu gweithredu'n well gyda gweledigaeth a disgwyliad nag ydym ni heddiw.

Sut gallai llywodraethau lleol berfformio'n wahanol erbyn 2035?

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021) yn nodi mai gofynion perfformiad llywodraeth leol yng Nghymru yw:

1. Arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;

2. Defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol, a
3. Sicrhau bod ei drefniadau llywodraethu'n ddigonol i gyflawni pwyntiau 1 a 2.

Mae hyn yn darparu fframwaith defnyddiol i ddechrau meddwl am sut gallai llywodraethau lleol berfformio'n wahanol yn y tymor hir, ac i ddechrau pennu gweledigaeth y gallwn ei phrofi, ei hailadrodd a'i gweithredu dros y deng mlynedd nesaf. Mae'n werth nodi, er y byddwn yn ymdrin â phob un o'r meysydd hyn ar wahân, bod y tair elfen yn rhyngweithio ac yn gorgyffwrdd, a dylid cadw hyn mewn cof, yn enwedig lle gallai cyfuniad o'r tair greu atebion cryfach i'n heriau.

Mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol

Yn gyffredinol, mae llywodraeth leol yng Nghymru wedi gallu arfer ei swyddogaethau dros y 17 mlynedd diwethaf, gan gymryd 2008 fel man cychwyn cyni a'r heriau y mae llywodraeth leol bellach yn eu hwynebu, drwy gyfuniad o newidiadau parhaus ac weithiau mwy trawsnewidiol i'r ffordd y mae'n gweithredu. Fodd bynnag, erbyn hyn mae llai o feysydd lle gellir gwneud newid sy'n lleihau costau gweithredu heb amharu ymhellach ar effeithiolrwydd sefydliadol. Mae pob llywodraeth leol yng Nghymru wedi gwneud, neu wedi ceisio gwneud, newidiadau digonol yn unol ag anghenion newidiol ei lleoedd lleol a'i strwythurau a'i hadnoddau ei hun. Nid yw trawsnewid ac arloesi yn weithgareddau newydd, ond nid oes ganddynt ddigon o adnoddau i sicrhau'r trawsnewid hirdymor sydd ei angen i roi llywodraeth leol ar sylfaen gynaliadwy.

Mae digon o dystiolaeth i awgrymu, er bod llywodraethau lleol wedi parhau i arfer eu swyddogaethau, bod eu gallu i wneud hynny'n effeithiol wedi lleihau fwyfwy. Nid ar chwarae bach y gwneir y datganiad hwn, ac mae'n cydnabod yr ymdrechion sylweddol y mae swyddogion etholedig ac anetholedig wedi'u gwneud i gadw eu sefydliadau i fynd. Tynnir sylw at hyn dro ar ôl tro mewn papurau ymchwil, sylwebaeth a safbwynt gan arolygwyr, comisiynwyr a sefydliadau ymgyrchu. Fodd bynnag, ni allwn anwybyddu'r dystiolaeth ar ganlyniadau. Er enghraifft:

- Ni all ymdrechion i wella ymatebolrwydd y system gofal cymdeithasol ddal fyny â'r galwadau cynyddol a mwyfwy cymhleth (Age Cymru, 2024);
- Mae Cymru ar ei hôl hi o gymharu â gwledydd eraill y DU o ran cyrhaeddiad addysgol (Sibieta, 2024; Mckernan, 2025);
- Mae perfformiad trafnidiaeth gyhoeddus yn llai effeithiol yng Nghymru nag mewn rhannau eraill o'r DU (Coombes a Rodrigues, 2023); a

- Mae Shelter yn awgrymu ‘ar y cyfraddau darparu presennol, byddai’n cymryd dros 35 mlynedd i ddarparu’r cartref sydd ei angen ar bob aelwyd sy’n aros’ (Caley, 2025).

Felly, ble rydym ni’n ar hyn o bryd a sut gallai’r dyfodol edrych?

Gan ddefnyddio model y Tri Gorwel, gallwn ddechrau mapio lle rydym ni ar hyn o bryd a lle gallem ni fod eisiau ei gyrraedd er mwyn gwella cynaliadwyedd llywodraeth leol yn y tymor hir. Mae’r tabl isod yn rhoi map dangosol, heb fod yn gynhwysfawr o werthoedd, ymddygiadau, systemau a phrosesau, perthnasoedd, pŵer, cymhellion a mesurau, sgiliau a galluoedd, defnyddio adnoddau a chanlyniadau yn y system bresennol (Gorwel 1). Yna, caiff y rhain eu cymharu â gweledigaeth amgen a ddylai sicrhau canlyniadau mwy cynaliadwy yn y tymor hir.

Tabl 1 - Cymharu swyddogaethau llywodraeth leol nawr ac yn y dyfodol gan ddefnyddio model y Tri Gorwel

Gorwel 1 - Y system bresennol (o)	Gorwel 3 - Y system fwy cynaliadwy yn y dyfodol (i)
Mae gwasanaethau’n fwy tebygol o fod yn adweithiol i alw nag yn rhagweithiol ac yn ataliol;	Llywodraeth leol yw sylfaen diwylliant ataliol. Mae ei agosrwydd at bobl yn rhoi mantais unigryw iddo i lunio, galluogi a chyflawni manteision atal.
Mae’r galw am wasanaethau’n cynyddu tra bo’r adnoddau i fodloni’r gofynion hynny’n lleihau, neu’n methu â chadw i fyny.	Mae’r galw am wasanaethau adweithiol yn gostwng ac mae cyfran yr arian sy’n cael ei wario ar wasanaethau adweithiol neu sy’n cael eu harwain gan y galw yn lleihau.
Y dewis diofyn yw gwneud peth <i>i</i> ddinasyddion yn hytrach na gwneud pethau <i>gyda</i> nhw. O ganlyniad, mae dinasyddion yn disgwyl i wasanaethau gael eu darparu ar eu cyfer yn hytrach na gyda nhw. O ganlyniad, mae dinasyddion yn disgwyl i wasanaethau gael eu darparu ar eu cyfer yn hytrach na gyda nhw.	Mae’r rhai sy’n cael cymorth yn cyd-ddylunio ac yn cyd-ddarparu gwasanaethau, a rôl y cyngor yw galluogi unigolion, cymunedau a’r sector cyhoeddus a phreifat ehangach i weithio ochr yn ochr â’r cyngor i sicrhau gwelliant parhaus mewn canlyniadau. Y dewis diofyn i lywodraeth leol fydd bod yn alluogwr gwasanaethau yn hytrach na darparwr, er y bydd yn cadw’r ddarpariaeth mewn rhai ardaloedd).

Gorwel 1 - Y system bresennol (o)

Gorwel 3 - Y system fwy cynaliadwy yn y dyfodol (i)

Nid oes gan gynghorau'r gallu i wneud penderfyniadau strategol, hirdymor gan nad oes gan swyddogion ac aelodau mewn swyddi arwain yr amser i ganolbwyntio ar unrhyw beth sydd ddim yn gysylltiedig â gwasanaethau sy'n cael eu gyrru gan alw (Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 2025).

Mae mwy o bwyslais ac adnoddau'n cael eu neilltuo i benderfyniadau strategol hirdymor ac mae llywodraeth leol yn fwy rhagweledol wrth wneud penderfyniadau.

Mae gwasanaethau creu lleoedd fel arfer yn ddewisol ac felly maent ymysg y cyntaf i gael eu torri pan fydd angen arbedion.

Mae creu lleoedd (Comisiwn Dylunio Cymru, dim dyddiad) yn ymdrech ar y cyd rhwng llywodraeth leol a dinasyddion, sy'n cyd-fynd â chysyniad Adam Lent o Withism (Lent, 2025a). Mae faint o adnoddau sy'n cael eu neilltuo i greu lleoedd yn cynyddu fel cyfran o'r gwariant.

Mae arloesedd yn ysbeidiol ac yn cael ei arwain gan unigolion brwdfrydig mewn llywodraeth leol, yn hytrach na'n systemig. Mae gwersi'n aml yn cael eu cadw'n lleol neu'n cael eu colli oherwydd diffyg gwerthuso a rhwydweithio effeithiol.

Mae ymatebolrwydd lleol yn sbarduno creadigrwydd ac arloesedd ac mae diwylliant o ddysgu sy'n cefnogi ac yn galluogi'r addasu hwn.

Mae gwasanaethau'n llai tebygol o gael eu personoli i anghenion yr unigolyn ac yn fwy tebygol o fod braidd yn gyffredinol a/neu ar wahân.

Mae gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl yn gydgysylltiedig ac yn ymateb i anghenion unigolion. Mae cynghorau'n cyflawni hyn drwy gydweithio'n lleol a defnyddio data ac offer digidol yn effeithiol.

Lle mae angen darparu gwasanaethau, maent yn fwy cydgysylltiedig a phersonol i'r unigolyn.

Defnyddir data a thystiolaeth i lywio penderfyniadau, ond yn anghyson ar draws ac o fewn sefydliadau.

Mae data a thystiolaeth yn cael eu defnyddio fel mater o drefn i lywio penderfyniadau ac i ganiatáu i

Gorwel 1 - Y system bresennol (o)

Gorwel 3 - Y system fwy cynaliadwy yn y dyfodol (i)

ddinasyddion ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.

Momentwm dros newid - yr ail orwel

Fel sy'n digwydd yn aml, mae fersiynau o'r dyfodol eisoes yma. Mae enghreifftiau o'r ffyrdd hyn o weithio eisoes yn bodoli ac yn dangos gweithgarwch yn yr ail orwen, y gofod lle mae syniadau newydd yn cael eu datblygu a'u profi¹. Mae'r system yn ymgorffori'r rhai sy'n profi'n effeithiol wrth iddi symud tuag at ei gweledigaeth arfaethedig, neu mewn rhai achosion yn cefnogi'r system bresennol mewn ffyrdd newydd.

O wasanaethau adweithiol i wasanaethau ataliol: Polisi cynllunio rhagweithiol Cyngor Gateshead ar safleoedd bwyd brys. Drwy wahardd siopau tecawê newydd ger ysgolion ac mewn ardaloedd gorlawn, gostyngodd Gateshead ddwysedd allfeydd bwyd brys 14% a gwelodd ostyngiad o 4.8% mewn gordewdra ymhlith plant yn ei gymunedau mwyaf difreintiedig (NIHR ARC Gogledd Ddwyrain a Gogledd Cumbria, 2024). Mae hyn yn dangos newid tuag at gamau ataliol, gan greu amgylcheddau iachach yn hytrach nag ymateb i'r galw o ran afiechyd. Rydym hefyd yn dechrau gweld enghreifftiau fel hyn yng Nghymru, gyda Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd ill dau yn gwahardd hysbysebu bwyd sothach ar eiddo'r cyngor (McCarthy, 2025).

Rheoli'r galw drwy ymyrraeth gynnar: menter 'Arts on Prescription' Swydd Gaerloyw. Arweiniodd y rhaglen presgripsiynu cymdeithasol hon, sy'n cysylltu cleifion â gweithgareddau celfyddydol cymunedol, at ostyngiad o 37% mewn ymweliadau â meddygon teulu a 27% yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty (Culture, Health & Wellbeing Alliance, 2023). Mae'r dystiolaeth hon yn dangos y gall buddsoddi mewn cymorth cynnar, ataliol leihau'r galw adweithiol am ofal iechyd, egwyddor y gall cynghorau lleol ei mabwysiadu mewn gofal cymdeithasol a gwasanaethau eraill.

Gwneud gyda (cyd-gynhyrchu) yn hytrach na gwneud i: Prosiect 'Every One Every Day' Barking a Dagenham. Bu'r fenter cyfranogiad hon rhwng 2017 a 2023 yn gweithio gyda bron i 10,000 o drigolion i gyd-greu dros 300 o brosiectau a busnesau cymunedol (Participatory City, 2023). Mae'n dangos sut y gall cynghorau sy'n galluogi cymunedau, yn hytrach na dim ond darparu ar eu cyfer, ddatgloi gallu dinasyddion a gwella canlyniadau.

¹ Cafwyd enghreifftiau gyda chymorth ChatGPT ac maent wedi cael eu gwirio i sicrhau eu bod yn gywir.

Croesawu gwneud penderfyniadau strategol hirdymor: Cynllun One City Bryste (2050). Gweledigaeth eang wedi'i chreu ar y cyd gan bartneriaid a dinasyddion yw Cynllun One City Bryste, sy'n diffinio nodau cyffredin hyd at 2050 (Bristol One City, 2025). Drwy angori strategaethau corfforaethol i'r cynllun hwn, mae'r cyngor yn mabwysiadu dull gweithredu rhagflaenol, tymor hir yn hytrach na llunio polisiau adweithiol tymor byr.

Creu lleoedd fel ymdrech ar y cyd: adfywio'r stryd fawr dan arweiniad y gymuned. Coronwyd Stryd Fawr Treorci (Rhondda Cynon Taf) yn 'Stryd Fawr y Flwyddyn' yn 2019, gyda chefnogaeth digwyddiadau dan arweiniad y gymuned, gan gynnwys sinemâu awyr agored, gwyliau celfyddydol a gorymdeithiau, ac ymgyrch farchnata ddigidol dan arweiniad gwirfoddolwyr a gododd nifer yr adeiladau llawn i 96% (Llywodraeth y DU, 2020). Mae'r llwyddiant hwn yn enghraifft o lywodraethau lleol a dinasyddion yn buddsoddi ar y cyd mewn creu lleoedd, yn hytrach na chynghorau'n torri gwasanaethau lleoedd dewisol yn gyntaf.

Arloesedd fel diwylliant, nid rhywbeth ar wahân: Arloesedd sefydliad cyfan Port St Lucie (Fflorida, UDA). Yn Port St Lucie, mae'r maer a chynghor cyfan y ddinas yn cymryd rhan mewn sesiynau hyfforddi a dylunio arloesedd ochr yn ochr â'r staff (Bloomberg Cities, 2025). Mae gweithwyr newydd yn mynd i 'Academi Arloesi' ac yn dysgu sut i wella prosesau, gan arwain at ganlyniadau diriaethol, fel un syniad a arbedodd filoedd o ddoleri i'r ddinas. Mae'r achos hwn yn dangos sut y gall gwneud arloesi a dysgu yn rhan annatod o weithrediadau, yn hytrach na phrosiectau torri costau untro, ryddhau capasiti a gwella gwasanaethau.

Gwasanaethau integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn: Canolfan Gofal Integredig Jean Bishop yn Hull. Mae'r ganolfan gofal eiddilwch hon yn defnyddio dull 'gwneud gyda' holistaidd ar gyfer pobl hŷn. Yn ei ddwy flynedd gyntaf cyrhaeddodd 90% o breswylwyr bregus iawn, gan haneru derbyniadau brys i'r ysbyty ar gyfer y grŵp hwnnw, a lleihau ymweliadau â'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys ar gyfer pobl dros 80 oed 13.6% (Lent, 2025b). Mae nifer o asiantaethau ar y safle ac mae rhannu data'n effeithiol yn galluogi cymorth cydgysylltiedig a phersonol, gan ddangos pŵer chwalu'r rhwystrau rhwng gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd i ddiwallu anghenion unigolion.

Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata: Adnodd dadansoddeg OneView Cyngor Bwrdeistref Maidstone. Datblygodd Maidstone system ddata ragfynegol sy'n tynnu sylw at aelwydydd sydd mewn perygl o fod yn ddigartref. Mewn blwyddyn, fe wnaeth y dull hwn atal 100 o deuluoedd rhag dod yn ddigartref ac fe wnaeth leihau digartrefedd cyffredinol 40% (Birchall, 2023). Drwy gyfuno mwy na 15 o setiau data, nododd y cyngor breswylwyr agored i niwed yn gynnwys a thargedu cymorth ar eu

cyfer, gan ddangos sut gall defnyddio data a thystiolaeth yn rheolaidd lywio penderfyniadau a symud adnoddau tuag at atal.

Symud ymlaen

Gallwn weld o'r enghreifftiau hyn, ac mae llawer mwy o bob cwr o Gymru a'r tu hwnt, bod syniadau newydd eisoes yn bodoli yn y gofod pontio rhwng ein system bresennol (Gorwel 1) a'r gofod y gallem fod eisiau ei gyrraedd (Gorwel 3). Yr her i unrhyw raglen drawsnewid newydd yw sicrhau bod y syniadau hyn yn sicrhau dyfodol mwy cynaliadwy i lywodraeth leol. Mae angen profi a chwestiynu ein hawgrymiadau ar gyfer y drydedd orwel uchod i sicrhau eu bod yn gwneud hynny. Er enghraifft, ni allwn bob amser ddweud bod atal yn arwain at fanteision uniongyrchol i lywodraeth leol, hyd yn oed pan fydd cymdeithas yn ei chyfanrwydd yn elwa. Os yw llywodraeth leol yn ysgwyddo'r risg (ariannol) a bod y GIG yn cael y manteision, sut mae cymell a digolledu llywodraeth leol yn y cyd-destun hwn? Mae angen dealltwriaeth fanylach arnom o'r canlyniadau i sicrhau bod syniadau newydd wir yn cyfrannu at ddyfodol mwy cynaliadwy.

Mae'n gallu defnyddio ei adnoddau mewn modd darbodus, effeithlon ac effeithiol

Gwyddom fod awdurdodau lleol yng Nghymru dan bwysau, er nad oes yr un ohonynt wedi gorfod cyhoeddi hysbysiad adran 114 hyd yma, i'r graddau bod yr Archwilydd Cyffredinol wedi dweud:

'...wrth i effaith gronnus cyfyngiadau ariannol gynyddu, ni allwn dybio bod dyfodol y sector yn gynaliadwy. Mae'r sefyllfa'n fregus ac yn sensitif i'r ffactorau cymhleth, sy'n cystadlu â'i gilydd, sy'n effeithio ar sefyllfa ariannol cynghorau.

'...er bod cynghorau'n gwybod yn gyffredinol beth yw maint eu bylchau cyllido, nid oes ganddynt gynlluniau tymor hirach ar waith i fynd i'r afael â nhw. Mae hyn yn golygu eu bod yn agored i benderfyniadau tymor byr sydd ddim o bosibl yn cynrychioli gwerth am arian nac er budd cymunedau lleol yn y tymor hwy... (Archwilio Cymru, 2024a: 4)

Rydym hefyd yn gwybod na all llywodraeth leol bob amser alw ar y sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arni i gydbwysu'r gwaith o wneud penderfyniadau strategol hirdymor â arbed costau tymor byr. Mae hyn i'w weld mewn dwy ffordd gyfansawdd. Yn gyntaf, mae diffyg sgiliau mewn meysydd polisi penodol, fel cynllunio (CLILC, 2024) ac iechyd yr amgylchedd (Cyngor Merthyr, dim dyddiad). Yn ail, mae tua 35% o'r holl swyddi gwag yng Nghymru oherwydd prinder sgiliau (CIPD, 2023), sy'n awgrymu

bod llywodraeth leol yn recriwtio mewn marchnad gystadleuol iawn a'i bod yn debygol o'i chael yn anodd cyrraedd y telerau ac amodau a gynigir gan y sector preifat mewn meysydd lle mae galw mawr, gan gynnwys sgiliau digidol. Mae problem barhaus o ran enw da hefyd, gydag ymchwil PWC yn awgrymu y gall ymddiriedaeth mewn llywodraeth gael effaith sylweddol ar ganfyddiadau'r cyhoedd, ac felly ar ba mor ddeniadol yw gweithio yn y sector (Rhwydwaith Cyngorau Sir, 2024).

Thema sy'n codi dro ar ôl tro mewn sgysiau â phobl yn y sector, ac o weithio gyda nhw, yw'r broblem o roi cyfrif am arbedion a gynhyrchir gan weithgarwch mewn llywodraeth leol ond a gyflawnir mewn mannau eraill. Er enghraifft, gall gwaith ataliol y gall llywodraethau lleol ei wneud drwy ofal cymdeithasol effeithiol arwain at arbedion i'r GIG. Awgrymwyd dro ar ôl tro bod sefyllfaoedd fel hyn yn dal gwaith atal yn ôl oherwydd nad oes ffordd ddigonol o gyfrif am arbedion o'r fath wrth gynnal dadansoddiad cost a budd ar gyfer buddsoddiad newydd.

Yn olaf, bydd twf ac argaeledd AI, fel term eang ar gyfer nifer o dechnolegau newydd, yn creu heriau a chyfleoedd i lywodraeth leol. Fe wnaeth archwiliad diweddar gan y Senedd o lywodraeth leol ddigidol dynnu sylw at nifer o heriau yn ymwneud â mabwysiadu technolegau newydd, gan gynnwys cydlynu rhwng llywodraeth ganolog a lleol, arweinyddiaeth, y cyd-destun cyllido a chydweithio (Griffiths, 2025). Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi datgan yn ddiweddar nad yw'r manteision a ddylai ddod gyda thechnolegau newydd yn cael eu gwireddu (Archwilio Cymru, 2024b).

Felly, o le ydym ni'n symud ac i le?

Tabl 2 - Cymharu defnydd llywodraeth leol o adnoddau nawr ac yn y dyfodol gan ddefnyddio model y Tri Gorwel

Gorwel 1 - Y system bresennol (o)	Gorwel 3 - Y system fwy cynaliadwy yn y dyfodol (i)
Mae llywodraeth leol yn ei chael yn anodd denu a chadw'r sgiliau sydd eu hangen arni i weithredu'n strategol, i lenwi bylchau hanfodol yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol, neu i ddal i fyny a gofynion data a thechnoleg sy'n newid.	Mae gan lywodraeth leol fynediad at y sgiliau sydd eu hangen arni i weithredu'n effeithiol a gall gynllunio ar gyfer gofynion sy'n newid dros y tymor hir. Mae hyn yn cynnwys dull clir sy'n defnyddio sgiliau a chapasiti ei dinasyddion.
Mae llywodraeth leol yn hynod o ymatebol i dechnoleg sy'n newid. Nid yw prosesau a systemau digidol	Mae'n llythrennog iawn yn ddigidol. Mae AI (Llywodraeth Cymru, 2025a) yn cael ei ddefnyddio (yn ofalus ac yn foesegol, gyda chaniatâd a chynhwysiad

Gorwel 1 - Y system bresennol (o)	Gorwel 3 - Y system fwy cynaliadwy yn y dyfodol (i)
newydd wastad yn creu'r gwerth y gallen nhw neu y dylen nhw.	dinasyddion (Berditchevskaia, Peach, a Moss, 2025) i ryddhau capasiti dynol sy'n gyrru arloesi a newid yn y sefydliad (Large, Britton, a Iosad, 2025) (nid dim ond i leihau gorbenion) a gwella canlyniadau i ddinasyddion.
Mae arloesi a thrawsnewid yn canolbwyntio bron yn gyfan gwbl ar ddod o hyd i arbedion cyllidebol, nid ar wella canlyniadau i ddinasyddion.	Mae ei gapasiti i arloesi a dysgu yn cael ei ailadeiladu ac mae'n ganolog i'w weithrediad.
Mae llunio polisïau yn adweithiol gan mwyaf, o ran y sefyllfa ariannol ac anghenion y gweinidogion.	Mae llunio polisïau llywodraeth leol o natur hynod o ragflaenol, gan arwain at sefydliadau mwy cydnerth a hyblyg (Gady, Djakonoff, Best-Dunkley, 2025).
Mae cydweithio rhwng cyrff yn digwydd ond gallai fod yn gryfach. Nid yw gwasanaethau wastad wedi'u cysylltu mewn ffyrdd sy'n gwella canlyniadau i ddinasyddion.	Cydweithio ac integreiddio yw'r norm, yn enwedig rhwng llywodraethau lleol a chyrff cyhoeddus eraill. Mae gwasanaethau wedi'u hintegreiddio'n sylweddol.
Mae cyllidebau'n flynyddol ac mae cynlluniau yn adweithiol o ganlyniad. Mae cyllidebu yn ymwneud ag arbedion a goroesi yn hytrach na chanlyniadau i ddinasyddion.	Yn hytrach na nghylch blynyddol o gyllidebau sydd ddim yn cyrraedd beth sydd ei angen wedi'i ddilyn gan chwilio am arbedion effeithlonrwydd, mae setliadau aml-flwyddyn sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth realistig o angen, wedi'i rannu ar draws Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol, ochr yn ochr â chynllun i fodloni angen o fewn yr amlenni adnoddau sydd ar gael. Mae llesiant yn ganolog i'r broses gyllido (Gaukroger, 2025).
Mae trawsnewid tymor hir yn gyfrifoldeb ar bob llywodraeth leol. Mae hyn yn arwain ar ddull cymysg o ymwneud â thrawsnewid a dim gweledigaeth glir ar gyfer sut beth	Mae angen cyd-weledigaeth ar gyfer trawsnewid dros y ddegawd nesaf, a chynllun ar gyfer sut mae'n cael ei adolygu a'i ailosod ar ôl y deng mlynedd.

Gorwel 1 - Y system bresennol (o)

fyddai fersiwn gynaliadwy o lywodraeth leol yn y tymor hirach.

Mae rhai adnoddau ar gyfer trawsnewid yn bodoli ond maent yn debygol o fod yn annigonol ac yn aml yn canolbwyntio ar ganlyniadau tymor byr i'r sefydliad, yn hytrach nag ar ddinasyddion.

Gorwel 3 - Y system fwy cynaliadwy yn y dyfodol (i)

Mae capasiti ac adnoddau digonol a phenodol i drawsnewid yn bodoli o fewn a'r tu allan i lywodraeth leol. Mae'n hynod o arbrofol a rhagflaenol, yn hytrach nag adweithiol.

Momentwm dros newid - yr ail orwel

Fel uchod, mae enghreifftiau sy'n awgrymu bod fersiynau o'r dyfodol eisoes yma.

Adeiladu capasiti dros dro ar gyfer arloesi: mae gweithgareddau profi a dysgu yn dangos sut gallwn ni adeiladu'r galluoedd a'r capasiti ar gyfer arloesi mewn gwasanaethau cyhoeddus. Pan fo angen, mae partneriaethau a secondiadau wedi cael eu datblygu i gynyddu capasiti dros dro (Llywodraeth y DU, 2024). Mewn ardaloedd eraill, mae model 'flexpool' wedi cael ei ddatblygu a'i brofi (llywodraeth y DU, 2025a), gan greu adnodd hyblyg sy'n caniatáu i unigolion brwdfrydig a thalentog i symud yn haws o fewn llywodraeth i gymryd aseiniadau tymor byr.

Llythrennedd digidol a deallusrwydd artiffisial moesegol yn rhyddhau capasiti: Defnyddio deallusrwydd artiffisial yng Nghyngor Gwlad yr Haf i gadw cofnodion ym maes gofal cymdeithasol. Yn 2023, treialodd Gwlad yr Haf 'Magic Notes', adnodd deallusrwydd artiffisial sy'n trawsgrifio nodiadau cyfarfodydd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol. Roedd yn lleihau'r amser gweinyddol wythnosol 46%, yn cynyddu'r gyfradd adrodd 65%, ac yn arbed tuag 11 awr yr wythnos i weithwyr cymdeithasol (Horton, 2025). Yn hollbwysig, mae'r cyngor yn pwysleisio defnydd moesegol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl. Mae hyn yn dangos sut gall deallusrwydd artiffisial sydd wedi'i gyflwyno'n ofalus gynyddu cynhyrchiant staff a rhyddhau capasiti dynol ar gyfer gwaith rheng flaen sy'n ychwanegu gwerth.

Arloesi sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, nid dim ond arbedion: Trawsnewid 'Bargen' Cyngor Wigan. Rhwng 2010 a 2020, roedd Wigan yn wynebu toriadau o £140 miliwn ond dewisodd fuddsoddi mewn modelau gwasanaeth newydd gyda'r gymuned. Trwy hyfforddi staff mewn sgysiau gwahanol a chyllido rhaglenni ataliol, arbedodd Wigan arian wrth wella canlyniadau, er enghraifft cododd y disgwyliad oes iach o 19 i 31 mis. Mae llwyddiant Bargen Wigan, yn cynnal neu'n gwella gwasanaethau er gwaethaf cyni, yn aml yn cael ei nodi fel enghraifft o ailadeiladu

diwylliant o arloesi a dysgu yn hytrach na dilyn toriadau cyllid tymor byr yn unig, er y dylid nodi bod toriadau swyddi sylweddol yn rhan o'r darlun.

Cyllidebu llesiant aml-flwyddyn: Cyllideb Llesiant cenedlaethol Seland Newydd. Wedi'i gyflwyno yn 2019, mae'n neilltuo cyllid yn seiliedig ar ganlyniadau cymdeithasol tymor hir a blaenoriaethau llesiant, fel iechyd meddwl a thlodi plant, yn hytrach na dim ond blaenoriaethau adrannol un flwyddyn (Schumacher, 2019).

Adeiladu sefydliadau newydd i gefnogi cydweithio a chyfuno: mae sefydliadau fel Swyddfa Technoleg ac Arloesi Llundain (LOTI) yn dangos sut gall capasiti ar gyfer arloesi ar y cyd (Swyddfa Technoleg ac Arloesi Llundain, dim dyddiad) gael ei greu a'i gydlyn. Mae ei allu i ddod â phobl at ei gilydd o amgylch heriau a rennir wedi cynyddu cydweithio ac wedi creu arbedion i'w aelodau (Awdurdod Llundain Fwyaf, 2024a).

Llywodraeth leol wedi'i ffedereiddio: yng Nghymru, mae creu model gweithio wedi'i ffedereiddio yn Nhorfaen a Blaenau Gwent yn pwyntio at ddulliau cydweithredol newydd sydd â'r potensial i greu sylfeini cryfach ar gyfer y cam nesaf o drawsnewid (Llywodraeth Cymru, 2025b; Partneriaethau Lleol, 2024). Mae'r ddau sefydliad yn rhannu Prif Weithredwr ac uwch dîm arwain. Awgrymwyd bod manteision ffedereiddio a brofwyd drwy gyfnod peilot yn cynnwys effeithlonrwydd ariannol drwy gostau gweinyddol is; un pennaeth gwasanaethau â thâl yn arwaith y corff swyddogion i gyflawni amcanion yn ddau gyngor; creu diwylliant sy'n ceisio gwella gwasanaethau gyda phreswylwyr wrth ei graidd, a gyrru cydweithio drwy feithrin rhannu gwybodaeth ac adnoddau.

Cytleoli gwasanaethau i wella canlyniadau: mae diwrnodau apwyntiadau cymunedol yn tynnu sylw at werth cydweithio rhwng sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus, ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Mae'r dulliau hyn wedi lleihau amseroedd aros ar gyfer apwyntiadau physiotherapi gan ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar y cymorth iawn ar yr adeg iawn (Lent a Oglethorpe, 2023).

Yn olaf, dylid nodi bod cyfraddau gwirfoddoli yng Nghymru yn parhau i godi, sy'n awgrymu bod dinasyddion yn parhau i fod eisiau cyfrannu eu hamser a'u hymdrech (Llywodraeth Cymru, 2025c), rhywbeth sy'n debygol o fod yn gynyddol bwysig yn y blynyddoedd i ddod.

Symud ymlaen

Mae'n bwysig bod yn glir mai dim ond os oes ganddi ddigon o adnoddau y gall llywodraeth leol ddefnyddio ei hadnoddau'n effeithlon. Dylai ymdrechu i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon olygu dod o hyd i ffyrdd newydd o leihau faint o adnoddau sydd ar gael i lywodraeth leol, a hefyd meddwl am sut mae adnoddau digonol yn cael

eu defnyddio yn y lle iawn ar yr adeg iawn. Mae'r agenda atal yn enghraifft dda o hyn. Sut mae symud yr adnoddau presennol o ofal eilaidd i ofal sylfaenol ac i'r gymuned i sicrhau bod pobl yn iach, yn hytrach na'u trin pan fyddant yn sâl?

Dylai hefyd ymwneud â datblygu cydbwysedd newydd rhwng cynllunio tymor hir, wedi'i hwyluso gan setliadau cyllido hirach, a hyblygrwydd ac ystwythder i ymateb mewn byd ansicr. Sut ydym ni'n gwneud yn siŵr bod modd cael gafael ar y sgiliau sydd eu hangen arnom pan fydd eu hangen, gan ddatblygu'r ymddygiadau a'r gwerthoedd sy'n cefnogi dyfodol mwy cynaliadwy orau?

Mae ei threfniadau llywodraethu yn addas i'r diben er mwyn cyflawni'r ddau beth uchod

Er bod atebolrwydd am wasanaethau lleol yn gymharol syml, ar bapur, nid yw bob amser wedi gweithio fel hyn yn ymarferol. Fel y dywedodd y Prif Swyddog Digidol dros dro ar gyfer Llywodraeth Leol yn ddiweddar:

'Mae nifer o brosiectau sydd wedi dod i law, blaenoriaethau gweinidogol sydd wedi dod i law, CDPS yn cael eu nodi fel y corff i gyflawni'r rheini, ac yna mae llywodraeth leol wedi dweud, 'Wel, nid yw hyn yn flaenoriaeth i ni ar hyn o bryd.' Felly, y tensiwn hwnnw rhwng ydyn ni—? Chi'n gwybod, pwy sy'n rheoli pa weithgareddau?' (Phillips, 2025, dyfynnwyd yn Griffiths, 2025: 1)

Mae'r ymdrechion diweddar i godeiddio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a llywodraeth leol yn well hefyd yn cydnabod natur gymhleth y berthynas rhwng gwahanol weithredwyr yn y system:

'Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw gosod y fframwaith deddfwriaethol a'r amgylchedd polisi cenedlaethol ar draws yr ystod o feysydd datganoledig er mwyn galluogi llywodraeth leol i benderfynu ar y ffordd orau o wasanaethu ei chymunedau. Mae'n gyfrifol, drwy etholiadau cenedlaethol, am bobl Cymru...

Mae llywodraeth leol yn gyfrifol am ddatblygu, cynllunio a darparu amrywiaeth eang o wasanaethau statudol a dewisol... Mae'n atebol i'w hetholwyr lleol am y penderfyniadau mae'n eu gwneud...

Fodd bynnag, mae llywodraethu'n gymhleth, ac nid yw'r 2 lefel hyn o atebolrwydd yn annibynnol ar ei gilydd, yn hytrach gallant atgyfnerthu a chryfhau ei gilydd os ydynt yn gweithredu'n effeithiol. Meysydd llywodraethu democrataidd yng Nghymru yw'r rhain, yn hytrach na haenau.' (Llywodraeth Cymru, 2025d).

Ochr yn ochr â hyn, dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, os caiff ei gweithredu'n effeithiol, helpu i sbarduno'r newid o ddiffodd tân tymor byr i wasanaethau cyhoeddus sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r ddeddf 'yn sbarduno'r newid ar draws y system a fwriadwyd' (Archwilio Cymru, 2025: 4). Mae'r data diweddaraf o Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos gostyngiad yn nifer y dinasyddion sy'n teimlo bod gwasanaethau da ar gael yn eu hardal a'u bod yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau hynny (Llywodraeth Cymru, 2025c). Yn fwy pryderus, mae llai nag 20% o ddinasyddion yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau yn eu hardal leol. Mae'r teimlad hwn hefyd yn bodoli mewn perthynas ag arloesi yng Nghymru, lle mai dim ond 20% o bobl sy'n teimlo bod ganddynt bŵer dros wneud penderfyniadau o ran arloesi (Llywodraeth Cymru, 2024). Fel uchod, mae'n ddefnyddiol meddwl o ble rydym ni'n symud ac i ble.

Tabl 3 - Cymharu dulliau llywodraethu mewn llywodraeth leol nawr ac yn y dyfodol gan ddefnyddio model y Tri Gorwel

Gorwel 1 - Y system bresennol (o)	Gorwel 3 - Y system fwy cynaliadwy yn y dyfodol (i)
Mae dinasyddion yn teimlo eu bod wedi'u dadrymuso ac yn methu dylanwadu ar sut mae penderfyniadau am eu hardal leol yn cael eu gwneud.	Mae dinasyddion yn deall sut mae llywodraeth leol yn gweithredu, yn gwybod beth yw eu rôl ynddi, yn gwybod sut i'w llunio ac yn ymddiried ynddi i ddiwallu eu hanghenion a'u disgwyliadau.
Er bod ymdrechion i gryfhau'r berthynas rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn mynd rhagddynt, mae gwaith i'w wneud i sicrhau bod y berthynas yn atgyfnerthu'r ddwy ochr a bod blaenoriaethau'n cyd-fynd â'i gilydd.	Mae'r berthynas rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn gryf ac yn atgyfnerthu'r ddwy ochr.
Nid yw dulliau cyfranogol sy'n cynnwys dinasyddion yn y broses o wneud penderfyniadau wedi'u hen sefydlu. Mae enghreifftiau presennol yn allanolynnau ac yn eithriadau yn hytrach na'r norm.	Mae democratiaeth leol yn golygu deialog barhaus â dinasyddion, nid dim ond etholiadau lleol (Phillips ac O'Brien, 2024).

Gorwel 1 - Y system bresennol (o)

Nid yw'n glir pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud i sicrhau bod y nifer fach o weithgareddau cyfranogol sy'n cael eu cynnal ar hyn o bryd yn gynhwysol ac yn cynrychioli cymunedau amrywiol Cymru.

Mae'n canolbwyntio ar fesurau allbwn tymor byr i'r un graddau o leiaf â chanlyniadau. Gwleidyddiaeth leol sy'n llywio penderfyniadau yn fwy na dinasyddion.

Gorwel 3 - Y system fwy cynaliadwy yn y dyfodol (i)

Mae'r cyfranogiad yn gynhwysol, yn deg ac yn cynrychioli cymunedau amrywiol Cymru.

Mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal leol yn bodoli ac wedi cael ei datblygwyd gyda dinasyddion a rhanddeiliaid eraill. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fydd gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth â llywodraeth ganolog a gwasanaethau cyhoeddus eraill. Mae hyn yn caniatáu i leoedd lleol siapio'r ddarpariaeth gyda mandad cliriach a chaniatâd i weithredu sy'n addas ar gyfer eu lleoedd.

Momentwm dros newid - yr ail orwel

Mae llawer o enghreifftiau o hyn ar waith, er ei bod yn anodd dadlau ei fod wedi'i ymgorffori'n dda yng Nghymru.

Mudiadau sy'n cael eu harwain gan ddinasyddion: mae Mudiad Gogledd Cymru 2025 yn un enghraifft sy'n gweithredu ar raddfa sylweddol, gan ysgogi cannoedd o bobl a nifer o sefydliadau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd y gellir eu hosgoi (Ruddle a Harvey, 2022).

Democratiaeth ar ffurf 'trafodaeth gyson': Cynulliad Dinasyddion Parhaol Newham (Llundain). Yn 2021, lansiodd Newham Gynulliad Dinasyddion Parhaol cyntaf y DU, corff sefydlog o breswylwyr sy'n ymgynnull yn rheolaidd i lunio polisi lleol (Cyngor Newham, 2021). Mae'r model hwn yn symud y tu hwnt i ymgysylltu mewn etholiadau yn unig. Er enghraifft, mae Cynulliad Newham wedi trafod gwneud y fwrdeistref yn fwy gwyrdd a blaenoriaethau eraill, gydag argymhellion y trigolion yn cyfrannu'n uniongyrchol at benderfyniadau'r cyngor. Mae'n enghraifft flaenllaw o ddeialog gyhoeddus sefydliadol a pharhaus mewn llywodraethu lleol.

Disgrifir The Talking Shop fel ‘canolfan wybodaeth ddemocrataidd a diwylliannol’, ac mae’n enghraifft dda a ddatblygwyd yng Nghymru (Omidaze Productions, dim dyddiad). Mae’n defnyddio dulliau creadigol o ymdrin â democratiaeth gydgynghorol, gan annog pobl i ymgysylltu’n ddyfnach â’u lleoedd a’r polisïau a’r wleidyddiaeth sy’n eu siapio.

Mae Ystafell Strategaeth y Ganolfan Dylunio Cyd-ddeallusrwydd yn enghraifft arall, adnodd ymgysylltu digidol sy’n helpu llywodraethau lleol i ddeall blaenoriaethau eu dinasyddion ar gyfer sero-net (Nesta, dim dyddiad). Ochr yn ochr â hyn, mae’r Ganolfan yn gweithio ar ddulliau newydd o gynnwys cymunedau mewn sgysiau am ddeallusrwydd artiffisial, gan sicrhau bod ymddiriedaeth a dealltwriaeth o ddefnyddio technoleg newydd yn cael eu meithrin gan y rheini sy’n defnyddio, yn darparu ac yn cael eu heffeithio ganddo (Nesta, 2025).

Mae hwn hefyd yn faes sy’n llawn enghreifftiau rhyngwladol, o gyllidebu cyfranogol ym Mharis (URBACT, 2017) a Brasil (Gonçalves, 2014), lle mae awgrym bod cyllidebu cyfranogol wedi cyfrannu at ostyngiad mewn cyfraddau marwolaethau babanod, i gynulliadau dinasyddion yng Ngwlad Pwyl (Ross, 2022) a Chanada (Dinas Toronto, 2017). Rydym yn gwybod sut i wneud hyn yn dda, gydag arferion da’n cael eu hadlewyrchu mewn canllawiau gan sefydliadau fel yr OECD (2020) a Llywodraeth yr Alban (2024).

Cyfranogiad cynhwysol a theg: cyllidebu cyfranogol ym Mharis. Paris sy’n rhedeg yr ymarfer cyllidebu cyfranogol mwyaf yn y byd, gan ddyrannu tua €100 miliwn bob blwyddyn ar gyfer prosiectau sy’n cael eu cynnig gan ddinasyddion. Yn nodedig, mae allgymorth wedi’i dargedu yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cynyddu cyfranogiad o gymdogaethau incwm isel a grwpiau ymylol (Partneriaeth Llywodraeth Agored, 2017).

Adeiladu ar y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Mae’n galonogol gweld bod ymdrechion eisoes ar y gweill i wella cyflwr democratiaeth yng Nghymru a sut rydym yn meddwl am ddyfodol llywodraethu lleol. Mae’n bwysig bod unrhyw waith ar strwythurau llywodraethu llywodraeth leol yn ystyried gwaith y Grŵp Cyngori ar Arloesi Democratiaeth (Llywodraeth Cymru, 2025e). Wrth fynd ati i ysgrifennu’r adroddiad hwn, gofynnwyd i mi beidio ag archwilio strwythur llywodraethu yng Nghymru nac ai’r nifer presennol o lywodraethau lleol yw’r nifer cywir. Fodd bynnag, nid yw’n ddadleuol dweud bod strwythurau llywodraethu yng Nghymru yn rhy gymhleth. Nid yw bodolaeth byrddau sy’n gorgyffwrdd ac sy’n cael adnoddau mewn ffyrdd gwahanol iawn, er enghraifft Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a Chyd-bwyllgorau Corfforedig, yn

ffafriol i'r math o arloesi sydd ei angen i gyflawni'r newid sydd ei angen i wneud llywodraeth leol yn gynaliadwy yn y tymor hir.

Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhelliad ynghylch sut y dylai hyn newid, dim ond bod angen iddo newid, ac y dylai fod yn glir i unrhyw un yng Nghymru pwy sy'n gyfrifol am beth, sut y cânt eu dwyn i gyfrif a sut y maent yn cynnwys dinasyddion er mwyn cael y budd mwyaf o'r adnoddau y maent yn gyfrifol amdanynt. Byddai'n ddoeth i Lywodraeth nesaf Cymru ystyried strwythurau llywodraethu yng Nghymru ac i ba raddau y maent yn addas i'r diben.

Creu rhaglen arloesi gynaliadwy ar gyfer llywodraeth leol

Ar ôl nodi lle rydym ni (Gorwel 1) a lle rydyn ni eisiau bod (Gorwel 3), gallwn ddechrau meddwl am sut rydym ni'n adeiladu'r bont rhwng y ddau (Gorwel 2). Byddwn yn edrych ar yr hyn y gallwn ei ddysgu o'r dirwedd arloesi bresennol ac o raglenni a llenyddiaeth trawsnewid, a byddwn yn cyflwyno rhaglen waith gychwynnol a fydd, yn ein barn ni, yn helpu i gyflawni'r gweledigaethau a nodir uchod.

Rhagdybiaethau

Rydym yn gwneud nifer o ragdybiaethau am y presennol a'r dyfodol sy'n llywio'r dyfodol rydym wedi'i awgrymu a sut y gallem fynd ati i gyflawni rhaglen waith. Mae'n bwysig ein bod yn profi'r rhagdybiaethau hyn yn rheolaidd dros y blynyddoedd nesaf ac yn addasu'r weledigaeth a'n cynlluniau wrth i ni ddysgu mwy am sut mae'r dyfodol yn datblygu. Nid yw'r rhestrau canlynol yn gynhwysfawr ond maent yn cynnwys rhai o'r pethau rydym wedi'u cadw mewn cof wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â'r ffordd orau o ddylunio rhaglen waith newydd:

1. Mae'r gallu presennol i arloesi mewn llywodraeth leol wedi cael ei leihau ers 2008 i 2009. Bydd angen buddsoddiad bwriadol i'w ailadeiladu.
2. Mae angen inni fod yn bragmatig ynglŷn â chyllid, gan dderbyn nad yw'r sefyllfa bresennol yn debygol o newid er gwell yn y tymor byr i ganolig.
3. Bydd telerau'r Ddeddf Llywodraeth Leol yn aros yn eu lle am dymor nesaf y Senedd o leiaf.
4. Y brif ffordd o sicrhau cydnherthedd gwasanaethau lleol yn y tymor hir yw lleihau'r pwysau sy'n cael ei greu gan wasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw.

5. Yn y dyfodol, mae CLILC yn arwain o'r tu blaen, gan lunio dyfodol perfformiad llywodraeth leol yn hytrach nag ymateb i'r presennol.
6. Nid yw rhedeg gwasanaethau arbrofol a chyfredol ddwywaith yn ymarferol ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau adnoddau.
7. Nid yw gweithgareddau arloesi yng Nghymru wedi'u trefnu na'u cydlynu'n ddigon da, nid ydynt yn cael eu gwerthuso'n ddigonol, ac nid yw'r canlyniadau'n cael eu rhannu neu eu hecsbloetio.
8. Er ei bod yn bosibl y bydd angen atebion gwahanol i'r un cwestiwn ar leoedd lleol, nid yw bellach yn dderbyniol nac yn ymarferol profi 22 fersiwn gwahanol o'r un ateb. Efallai y byddai'n well datblygu a phrofi tri, yn seiliedig ar archdeipiau o lywodraeth leol yng Nghymru y cytunwyd arnynt ymlaen llaw, er enghraifft; trefol yn bennaf, gwledig yn bennaf a chymysg.
9. Mae llywodraeth leol yn gallu gweithio gyda'i dinasyddion i ddatblygu gweledigaethau ystyrlon ac addas ar gyfer eu lleoedd, ond nid i ddatblygu cysylltiadau dyfnach, mwy cyfranogol.
10. Bydd rôl y Cyd-bwyllgorau Corfforedig a sut maent yn rhyngweithio â strwythurau llywodraethu eraill, gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn dod yn glir yn y tymor canolig i'r tymor hir a gellir addasu cynlluniau yn ôl yr angen i ddarparu ar eu cyfer.

Gwersi o'r dirwedd arloesi a thrawsnewid

Mae llawer o enghreifftiau o raglenni arloesi mewn gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r rhain yn cynnwys carfannau untro sy'n cael eu hariannu gan grantiau sy'n canolbwyntio ar bynciau penodol (Cymdeithas Llywodraeth Leol, dim dyddiad; UKRI, 2025), rhaglenni profi a dysgu sy'n defnyddio dull sy'n canolbwyntio mwy ar genhadaeth ac sy'n defnyddio gwersi o'r sector preifat (Llywodraeth y DU, 2025b), a labordai arloesi a sefydlwyd i ddarparu'r sgiliau a'r capasiti sydd eu hangen i ddylunio a phrofi atebion newydd i broblemau mwy systemig (Beattie a Buisman, 2025; Monteiro a Kumpf, 2023; Kumpf a Monteiro, 2024). Byddwn yn defnyddio ymchwil a gwerthusiadau o raglenni llwyddiannus i ddeall yn well sut i gefnogi arloesedd a thrawsnewid ar gyfer llywodraethau lleol yng Nghymru.

Dod â Gorwel 2 yn fyw - rhaglen waith

Mae angen i'n rhaglen gyflawni tri pheth:

1. **Creu amgylchedd gweithredu mwy sefydlog** sy'n fwy ffafriol i arloesi a thrawsnewid. Heb hyn, mae'n fwy tebygol y bydd y ddwy elfen nesaf yn methu.

Ar yr un pryd, mae angen i ni gynnal dadansoddiad o'r bylchau rhwng Gorwel 1 a Gorwel 3 ar gyfer pob un o'n meysydd perfformiad a nodir uchod, er mwyn i ni allu deall yn well lle mae gwybodaeth a momentwm ar gael ar hyn o bryd i adeiladu arnynt a lle mae angen gwybodaeth newydd. Ar ôl i ni gael hynny, mae angen i'n rhaglen wneud y canlynol:

2. Gwneud y defnydd gorau o'r **wybodaeth a'r momentwm sydd gennym eisoës** yn gyflym; a
3. Datblygu a defnyddio **gwybodaeth newydd** lle bo angen.

Un nodyn olaf cyn i ni edrych ar y manylion. Nid yw'n glir ar hyn o bryd ai'r ffocws cywir ar gyfer y gwaith hwn yw lle (er enghraifft Llanelli, Sir Gaerfyrddin neu Brifddinas-Ranbarth Caerdydd) neu bolisi (er enghraifft tai neu ofal cymdeithasol), neu sut i daro'r cydbwysedd cywir rhwng y ddau. Er enghraifft, a ydych yn cymryd tai fel her ac yn gweithio ar yr her benodol honno gydag ychydig o leoedd, sy'n debycach i ddull sy'n seiliedig ar genhadaeth, ynteu a ydych yn dewis nifer fach o leoedd ac yn ceisio mynd i'r afael â'u heriau'n fwy cyfannol, yn nes at ddull Wigan? Nid oes gennym farn ar hyn ar hyn o bryd a byddem yn croesawu'r cyfle i'w archwilio ymhellach.

Amgylchedd gweithredu mwy sefydlog

Rydym wedi gweld o'n gwaith ar Orwel 1 bod yr amgylchedd gweithredu ar gyfer arloesi yn ansefydlog. Mae'r pwysau ariannol cynyddol a'r diffyg mynediad at sgiliau, sy'n hanfodol i weithgarwch arloesi llwyddiannus, yn awgrymu y bydd yn anodd i sefydliadau fuddsoddi'n llwyddiannus mewn arloesedd.

Nid yw'n glir beth yw'r cymhellion ar gyfer arloesi ac a ydynt yn cyd-fynd yn effeithiol â llywodraeth leol. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas ag atal a sut rydym yn cyfrif am y gwerth sy'n cael ei greu ganddo. Mae hyn hefyd yn cynnwys diwylliant ehangach o ddysgu drwy fethu. Fel yr eglurodd un gwas cyhoeddus rai blynyddoedd yn ôl, 'rydyn ni'n cael ein hannog yn llwyr i fethu, hyd at y pwynt pan fyddwn ni'n gwneud hynny...'.

Gwyddom hefyd fod awdurdodau lleol unigol a CLILC yn gweithredu ar gylch cyllido blynyddol ar hyn o bryd, rhywbeth sy'n ymddangos fel pe bai'n newid yn Lloegr (Llywodraeth y DU, 2025c). Nid yw hyn yn arwain at feddwl tymor hir, nac yn hollbwysig, at gadw sgiliau mewn sefydliad.

Beth allwn ni ei ddysgu o LOTI?

Un enghraifft y gallwn edrych arni yw Swyddfa Technoleg ac Arloesi Llundain (LOTI). Cafodd ei sefydlu yn 2019 a'i ariannu gan aelodau, gan gynnwys llywodraeth leol, Awdurdod Llundain Fwyaf ac eraill, a thrwy ffynonellau eraill dros gyfnod o sawl blwyddyn, mae wedi dangos ei allu i arbed arian a meithrin arloesedd, data a chapasiti digidol cadarn ar draws y brifddinas (Awdurdod Llundain Fwyaf, 2024b). Dyma rai o brif bwyntiau eu gwaith hyd yma:

- Mae'n cael ei hariannu am nifer o flynyddoedd, gan greu llwyfan sefydlog ar gyfer datblygu gwaith newydd. Costiodd ei phedair blynedd gyntaf o weithredu tua £2.5 miliwn, er mai aelodaeth flynyddol sydd gan fwrdeistrefi a bod nifer yr aelodau'n amrywio.
- Mae'n gynullydd sy'n gallu meithrin cydweithio rhwng sefydliadau, o bethau bach fel rhannu disgrifiadau swydd i wella recriwtio, i brosiectau mwy sy'n sicrhau bod llywodraethau'n rhannu data yn well. Mae hefyd yn dangos sut y gall sefydliadau gydweithio tra'n cynnal eu sofraniaeth unigol. Ni fydd LOTI byth yn gwneud gwaith oni bai fod o leiaf dri aelod yn gysylltiedig.
- Mae'n arweinydd syniadau, yn gwella dealltwriaeth aelodau o arferion gorau ym maes technoleg, data ac arloesi.
- Mae'n fach ac yn ystwyth, gyda thîm cymharol fach, sy'n gweithredu mwy fel cynhyrchydd ar gyfer poblogaeth a nifer o lywodraethau lleol sy'n fwy na Chymru. Maent yn cael eu hystyried yn ffafriol ac mae eu haelodau o'r farn eu bod yn mynd ati i gyflawni (Awdurdod Llundain Fwyaf, 2024b). Maent yn gwneud nifer fach o bethau sydd, gyda'i gilydd, yn bwysig i'r aelodau hynny.
- Mae'n entrepreneuraidd ac yn gallu defnyddio arian newydd i gyflawni prosiectau penodol, gan sicrhau tua £3 miliwn o incwm ychwanegol yn ystod ei phedair blynedd gyntaf.

Wrth siarad yn ddiweddar ag Eddie Copeland, Cyfarwyddwr LOTI, tynnodd sylw hefyd at bwysigrwydd lleoedd lleol yn buddsoddi yn y gwaith hwn yn hytrach na dibynnu ar gyllid canolog. Ei farn ef oedd bod hyn yn creu rheswm i aelodau barhau i gymryd rhan mewn prosiectau, gan sicrhau bod LOTI yn darparu gwerth am arian gyda'r buddsoddiad hwn.

Mae'n amlwg bod heriau strwythurol y mae angen i lywodraeth leol eu goresgyn er mwyn sicrhau bod yr amgylchedd gweithredu'n caniatáu i berfformiad fod yn fwy cynaliadwy dros y tymor hir. Fodd bynnag, mae angen buddsoddi mewn arloesedd sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd hirdymor hefyd os ydym am ganfod, profi ac ehangu modelau gweithredu newydd.

Gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd gennym yn barod

Mae nodi lle mae eraill wedi datblygu syniadau effeithiol a chynyddu'r effaith honno'n gyflym ac yn effeithiol mewn lleoedd newydd yn faes lle byddem yn gobeithio gwneud cynnydd cyflymach oherwydd nad ydym yn dechrau o'r dechrau. Bydd angen i ni sicrhau ein bod yn gwneud hyn mewn ffordd sy'n meithrin cynllunio a darparu gwasanaethau ar y cyd â dinasyddion, yn hytrach na dim ond gwella'r system bresennol er mwyn sicrhau enillion tymor byr.

Gwyddom o'r llenyddiaeth fod pethau craidd y mae angen i ni eu hystyried i gynyddu ein heffaith yn effeithiol (Gabriel, 2014).

- **Egluro nodau cymdeithasol, sefydliadol a phersonol.** Dyma ein gweledigaeth, sydd wedi'i nodi yng Ngorwel 3;
- **Sefydlu beth i'w ehangu.** Mae hyn yn ymwneud â nodi ymyriadau addawol a gwerthuso'n gyflym sut maent yn cyflawni ein gweledigaeth ac a oes angen unrhyw newidiadau i gyd-fynd â'r cyd-destun lleol. Mae hefyd yn ymwneud â nodi pam mae syniad yn gweithio, nid dim ond y model cyflawni;
- **Penderfynu ar lwybr i ehangu.** Mae hyn yn gofyn am ddeall sut y gellid darparu'r ymyriad, gan bwy, a'r ffordd orau o'i ariannu a darparu adnoddau ar ei gyfer; a
- **Paratoi i gyflawni strategaeth ehangu.** Mae hyn yn cynnwys meithrin sgiliau a galluoedd, ochr yn ochr ag arweinyddiaeth, cyfathrebu ac ymgysylltu, fel y nodir isod.

Rhaid inni symud oddi wrth y syniad y bydd cyhoeddi adroddiad ar ei ben ei hun yn caniatáu i wersi gael eu hymgorffori. Mae ehangu yn gofyn am fuddsoddiad ac ymdrech gan y bobl sy'n mabwysiadu'r syniad, felly mae angen i ni ddarparu adnoddau a chefnogi'r ymdrechion hynny'n effeithiol.

Beth allwn ni ei ddysgu o Fargen Wigan?

Rydym yn gwybod ei bod hi'n anodd trawsnewid unrhyw sefydliad. Rydym hefyd yn gwybod yn fras sut i wneud hynny. Mae'r llenyddiaeth ar drawsnewid sefydliadol yn cyfeirio'n gyson at bum ffactor y mae angen iddynt fod yn bresennol i wella'r tebygolrwydd y bydd gweithgareddau trawsnewid yn llwyddo:

- Gweledigaeth;
- Arweinyddiaeth (gwleidyddol a sefydliadol);
- Cyfathrebu ac ymgysylltu;

- Prosesau a gweithredu, gan gynnwys adnoddau a chyllid digonol; a
- Galluedd a sgiliau.

Mae ymchwil gan y King's Fund (Naylor a Wellings, 2019) yn ein helpu i weld sut y cyfrannodd y pum ffactor hyn at lwyddiant Bergen Wigan. Rydym hefyd yn gweld pob un o'r pump yn bresennol yn y gwaith trawsnewid sy'n digwydd ym Mlaenau Gwent a Thorfaen (King's Fund, dim dyddiad):

Tabl 4 - Ffactorau allweddol sy'n sail i drawsnewid llwyddiannus (Allas et al., 2018; Llywodraeth y DU, 2025d; White et al., 2023; 83. Bayat et al. 2023)

Best practice in transformation	Lessons from the Wigan Deal
Gweledigaeth: Mae gweledigaeth a phwrpas clir ac ysbrydoledig yn hanfodol ar gyfer trawsnewidiadau llwyddiannus, sy'n cael eu datblygu gyda phawb sy'n ymwneud â'r newid sy'n cael ei gynnig ac sy'n cael ei effeithio ganddo, ac sy'n cael ei rannu ganddynt. Rhaid i sefydliadau greu darlun cymhellol o'r dyfodol maent yn ei ddymuno ac esbonio'n glir y 'pam' y tu ôl i'r newid.	Y nodwedd fwyaf trawiadol yn Wigan yw'r cysondeb pwrpas sy'n amlwg yn yr uwch dîm arwain ac ar lefelau eraill ar draws y cyngor. Lluniwyd gweledigaeth gyffredin yn gynnwys rhwng arweinwyr gweithredol a gwleidyddol, a datblygwyd naratif clir ynghylch y newidiadau roedd y cyngor am eu cyflwyno a pham roedd eu hangen. Mae'r naratif craidd hwn wedi aros yn gyson dros amser, gydag arweinwyr yn gwneud ymrwymiad hirdymor i newid sut mae'r cyngor yn gweithio gyda phobl leol.
Arweinyddiaeth: Mae arweinwyr effeithiol mewn trawsnewidiadau llwyddiannus yn dangos esiampl amlwg o'r newidiadau a ddymunir, yn buddsoddi egni emosiynol, ac yn cymryd atebolrwydd personol. Maent yn sicrhau ffocws parhaus drwy reoli blaenoriaethau, defnyddio cyfalaf gwleidyddol yn ofalus, a chynllunio ar gyfer parhad.	Mae dull galluogol o arwain wedi golygu bod staff wedi cael cryn ryddid i ddatblygu eu syniadau eu hunain ynghylch sut y gellir rhoi egwyddorion y Fargen ar waith yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Mae uwch arweinwyr yng Nghyngor Wigan yn pwysleisio pwysigrwydd gwyleidd-dra ac 'arweinyddiaeth sy'n gwasanaethu'.

Best practice in transformation

Lessons from the Wigan Deal

Cyfathrebu ac ymgysylltu: Mae trawsnewidiadau llwyddiannus yn seiliedig ar gyfathrebu agored a chyson gan uwch reolwyr, gan sicrhau bod pawb yn deall y cynnydd a'r goblygiadau. Mae cynnwys ac ymgysylltu'n rheolaidd ac yn ystyrlon â gweithwyr rheng flaen yn hanfodol, gan fod eu cyfranogiad yn cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant yn sylweddol. Mae stori newid gref sy'n cyfleu'n glir 'pam', 'ble', 'beth', a 'sut', ac sy'n tynnu sylw at fanteision unigol, yn fwy tebygol o ysbrydoli perchnogaeth ac ymrwymiad.

Prosesau a gweithredu: Mae cynllunio effeithiol ynghyd â gweithredu cyflym yn nodweddiadol o drawsnewidiadau llwyddiannus, gan helpu sefydliadau i symud y tu hwnt i 'barlys cynllunio' tuag at gynnydd pendant. Mae cofleidio prosesau ystwyth ac addasadwy, yn hytrach na hierarchaethau araf ac anhyblyg, yn galluogi'r cyflymder sydd ei angen ar gyfer newid ystyrlon.

Galluoedd a sgiliau: Mae buddsoddi'n strategol mewn hyfforddiant y tu hwnt i'r uwch dîm, sy'n helpu i feithrin gwybodaeth a gallu'r gweithlu mewn

Mae arweinyddiaeth wleidyddol hefyd wedi chwarae rhan hollbwysig, gyda chynghorwyr yn fodlon gwneud y Fargen yn fater amhleidiol a dod o hyd i dir cyffredin er gwaethaf gwahaniaethau gwleidyddol.

Buddsoddwyd cryn dipyn o egni mewn cyfathrebu a marchnata i greu ymdeimlad cyffredin o bwrpas. Mae cysyniad y Fargen a'r egwyddorion y mae'n eu cynrychioli yn cael eu hatgyfnerthu ar bob cyfle posibl. Mae straeon gan staff a defnyddwyr y gwasanaeth wedi chwarae rhan arbennig o bwysig, gan ddarparu enghreifftiau pendant o sut mae pobl leol wedi elwa o'r newidiadau sydd ar y gweill a dangos i staff bod caniatâd i arloesi yn ddilys yn hytrach nag yn rhethregol.

Mae'r newidiadau yn Wigan wedi'u nodweddu gan gyfres o benderfyniadau beiddgar yn hytrach na chynnydd graddol. Thema allweddol drwy gydol y stori fu'r angen i 'ddal ein tir' yn wyneb rhwystrau sylweddol.

Mae'r newidiadau wedi cynnwys hyfforddi'r holl staff ym mhob rhan o'r cyngor a sefydliadau partner i gael sgysiaid gwahanol gyda defnyddwyr gwasanaeth, ail-lunio'r gweithlu ym

Best practice in transformation

perthynas â thrawsnewid, yn ffactor llwyddiant cyffredin.

Lessons from the Wigan Deal

maes gofal cymdeithasol i oedolion yn sylweddol, a disodli staff a oedd yn amharod neu'n methu newid sut roeddent yn gweithio gyda phobl leol.

Mae cadw'r gwersi hyn mewn cof a'u rhoi ar waith mewn rhaglen sydd â digon o adnoddau sy'n caniatáu i ardaloedd lleol ganfod, addasu, profi a defnyddio gwybodaeth o leoedd eraill yn gallu creu momentwm go iawn ar gyfer unrhyw raglen drawsnewid. Dylem archwilio sut gallai'r math hwn o waith weithredu fel catalydd ar gyfer newid, yn enwedig lle gallai datblygu gwybodaeth newydd gymryd mwy o amser i gael canlyniadau.

Datblygu gwybodaeth newydd

Weithiau bydd angen i ni ddechrau o'r dechrau. Yn yr achosion hynny, bydd cael adnoddau, dulliau a phrosesau cadarn ar gyfer datblygu, profi ac ehangu syniadau newydd yn hanfodol. Mae'n debyg mai dyma'r maes lle mae angen i ni fod â'r lefelau uchaf o ansicrwydd. Gwyddom y bydd llawer o'r pethau a wnawn yma yn methu ac y bydd angen dysgu gwersi ohonynt. Gwyddom hefyd y bydd rhai pethau'n llwyddo ac, yn yr achosion hynny, bydd arnom angen mecanwaith cadarn, er enghraifft un gwerthusol, ariannol neu sefydliadol, ar gyfer gweithredu ac ehangu'r syniadau hynny y dylid eu hehangu.

Beth allwn ni ei ddysgu o Innovate to Save?

Dangosodd Innovate to Save (Nesta, 2017) fod modd gwella gwasanaeth ac arbed arian ar yr un pryd. Fodd bynnag, dangosodd hefyd fod hyn yn anodd ac na fydd popeth yn gweithio. Bydd methiannau. Dangosodd hefyd fod dylunio ar gyfer graddfa o'r cychwyn cyntaf yn creu'r amodau sy'n caniatáu i syniadau newydd ffynnu. Mae rhaglen Mockingbird Cyngor Sir y Fflint, sydd wedi'i chynllunio i wella bywydau plant sy'n derbyn gofal a lleihau gwariant ar ofal brys neu ofal costus y tu allan i'r sir, yn dangos yn glir yr effaith y gall y math cywir o gyllid a chymorth arloesi ei chael (Cyngor Sir y Fflint, 2025).

Nodir gwersi allweddol o'r rhaglen yn y canllaw Innovate to Save (Ashelford et al., 2019) ac maent yn cynnwys canllawiau ar ddewis y mathau cywir o gyllid a chyfuno cyllid nad yw'n ad-daladwy a chyllid ad-daladwy i ysgogi a chefnogi arloesedd. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd dull graddol o ymdrin â syniadau newydd: sicrhau bod sefydliad wedi'i sefydlu'n dda ar gyfer ymchwil a datblygu, cefnogi'r

gwaith ymchwil a datblygu hwnnw'n effeithiol, ac yna gweithredu'r syniad yn ailadroddus i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion.

Beth allwn ni ei ddysgu o Brofi, Dysgu a Thyfu?

Megis dechrau y mae rhaglen Profi, Dysgu a Thyfu Llywodraeth y DU, ond mae ganddi'r potensial i ddangos sut i gynnal arbrofion cyflym ac effeithiol mewn gwasanaethau cyhoeddus. Yn anecdotaidd (TransformGov Talks, 2025), rydym wedi clywed bod y ffactorau sy'n cyfrannu at ei llwyddiant hyd yma yn cynnwys:

- Pwysigrwydd cefnogaeth a buddsoddiad ar lefel uwch.
- Gwneud buddsoddiadau mawr mewn nifer fach o leoedd a chenadaethau;
- Mynd i'r afael â'r rhain yn ailadroddus a dysgu wrth fynd ymlaen
- Prosiectau arddangos sy'n ddwys iawn ac yn seiliedig ar wneud popeth yn well nag yr oedd ar ddechrau'r wythnos. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar weithredu, gan brofi'r hyn sydd bwysicaf er mwyn dysgu beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio, heb wneud buddsoddiadau mawr ymlaen llaw.

Megis dechrau y mae'r rhaglen hon ac nid yw'n glir eto sut bydd yr elfen twf yn cyflawni ei nodau ehangach, ond edrychwn ymlaen at weld sut bydd yn datblygu dros y misoedd nesaf.

Argymhellion

Ar sail ein heriau hysbys a'r gwersi o'r enghreifftiau uchod, mae'r nodau a'r argymhellion canlynol yn fan cychwyn ar gyfer gwaith pellach yn y maes hwn. Fel y nodwyd ar ddechrau'r adroddiad, mae angen ymchwilio a chwestiynu'r rhain ymhellach (yn ddelfrydol gwaith ymarferol, dysgu drwy wneud yn hytrach na dim ond siarad a meddwl) ac mae'n debyg eu bod yn anghywir mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, mae ein dull yn cofleidio'r syniad mai dechrau'r gwaith yw'r ffordd fwyaf defnyddiol o ddysgu beth sy'n gweithio a beth nad yw'n gweithio.

Nod yr argymhellion yw mynd i'r afael â thair her allweddol:

- Nid oes gennym weledigaeth glir (neu weledigaethau clir) a rennir o sut beth yw fersiwn gynaliadwy o lywodraeth leol yng Nghymru;
- Ni allwn ddiffodd y system bresennol a rhoi un newydd ar waith. Bydd angen trosglwyddo dros gyfnod o amser; a

- Bod y capasiti arloesi sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd tymor hir (yn hytrach nag arbedion effeithlonrwydd tymor byr) wedi cael ei erydu dros y degawd diwethaf a bod angen ei ailadeiladu.

Ein hargymhelliad cyntaf yw bod model Tri Gorwel yn cael ei archwilio'n fanylach gyda grŵp ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys grŵp cynrychioliadol o ddinasyddion, ar gyfer pob un o'r meysydd perfformiad a nodir uchod. Mae ein gwaith yma yn ddangosol, nid yn gynrychioliadol, gan ddangos sut gellid gwneud hyn yn effeithiol a ble i ddechrau. Yn y lle cyntaf, mae'n debyg y dylai hyn gael ei arwain gan CLILC a grŵp bach o lywodraethau lleol i sicrhau bod y gwaith yn aros yn gyflym ac yn ystwyth ac yn adeiladu momentwm ar gyfer newid, yn hytrach na chael ei arafu gan drafodaethau llywodraethu a pherchnogaeth.

Mae'r argymhellion sy'n dilyn yn adeiladu ar y syniad bod angen inni wneud newidiadau i'r amgylchedd gweithredu ar gyfer arloesi. Mae hyn yn ymwneud yn benodol ag ailadeiladu capasiti a chynyddu galluedd llywodraeth leol a'i harweinwyr; gwneud y defnydd gorau o wybodaeth bresennol i adeiladu momentwm; a deall lle gallai mannau dall fodoli er mwyn inni allu buddsoddi mewn ymchwil a datblygu sy'n meithrin gwybodaeth newydd. Dros y 10 mlynedd nesaf, dylai'r cyfuniad hwn o waith sicrhau bod llywodraeth leol yn meithrin capasiti mwy gwydn ar gyfer arloesi, gan ganiatáu iddi barhau i fod yn hyblyg ac yn addasadwy mewn byd sy'n dal yn ansicr.

Ebrill 2027

Y nod cyffredinol ar gyfer y 12 i 18 mis nesaf yw dod o hyd i ffordd o gynyddu capasiti arloesol llywodraeth leol yng Nghymru, ond gwneud hynny'n strategol ac ar y cyd yn hytrach nag yn unigol.

Mae'r model Tri Gorwel wedi cael ei ddefnyddio fel fframwaith i archwilio sut beth yw perfformiad, defnyddio adnoddau a llywodraethu nawr ac yn y dyfodol gyda grŵp ehangach o randdeiliaid, ac mae'r canfyddiadau'n siapio'r gweithgareddau sy'n dilyn. Mae wedi cael ei archwilio mewn ffordd sy'n cyflawni bwriad a manylion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig ei phum ffordd o weithio.

Yr amgylchedd

Mae CLILC, Llywodraeth Cymru ac is-set fach o awdurdodau lleol yn buddsoddi mewn rhaglen arbrofol sy'n profi ac yn dysgu'n gyflym sut gallai gwasanaeth arloesi a rennir weithredu a chael ei lywodraethu. Dylai'r cyllid ddod o'r canlynol:

- Cyfran o'r arian a ddarparwyd i CLILC ar gyfer 'gwella a digidol';
- Tîm Arloesi Llywodraeth Cymru; a
- Yr hyn sy'n cyfateb i danysgrifiadau bach gan rhwng pump a deg llywodraeth leol o rhwng £10k ac £20k yr un.

Dylai'r gwasanaeth hwn archwilio manteision a chyfaddawdu rhwng lle a pholisi fel y ffrâm gyffredinol ar gyfer ei waith a chynnig achos busnes dros barhau neu archwilio modelau amgen.

Dylai'r gwasanaeth hefyd archwilio cyd-destun ehangach cyllid a chymorth arloesi, a gwneud argymhellion ynghylch sut a ble y gellir defnyddio arian newydd ar gyfer arloesi yn y dyfodol.

Dylid pennu tasg ar wahân i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (neu sefydliad tebyg) ymchwilio i'r cymhellion ar gyfer arloesi mewn llywodraeth leol, yn enwedig sut gallwn roi cyfrif gwell am arbedion ar lefel system wrth atal a sut gellir defnyddio'r rhain i gefnogi arloesi effeithiol.

Defnyddio gwybodaeth

Dylai'r gwasanaeth arloesi peilot sefydlu nifer fach o raglenni braenaru i brofi modelau darparu gwahanol ar gyfer nodi a manteisio ar wybodaeth bresennol, archwilio partneriaethau, meysydd polisi a chlystyrau demograffig er mwyn deall yn well sut i ariannu a chefnogi fersiynau yn y dyfodol.

Gwneir nifer fach o fuddsoddiadau arbrolfol i helpu i ddylunio a phrofi rhaglen raddio yn y dyfodol sy'n ymateb i wybodaeth bresennol yn ogystal ag i anghenion ardaloedd lleol.

Datblygu gwybodaeth newydd

Dylai'r gwasanaeth arloesi peilot ddatblygu perthynas gref â'r tîm Profi, Dysgu a Thyfu a gweithio gyda nhw i ddylunio a threalu rhaglen debyg ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru.

Erbyn 2031

Mae angen i'r pum mlynedd gyntaf weithredu fel ein harddangoswr, gan ddangos gwelliant parhaus yng nghynaliadwyedd posibl llywodraeth leol a gwerth buddsoddi mewn arloesi. Mae'n ymwneud â datblygu a chryfhau partneriaethau sy'n ychwanegu gwerth at gapasiti arloesi yng Nghymru a meithrin y sgiliau, y galluoedd, yr ymddygiadau a'r gwerthoedd sydd eu hangen ar gyfer dull gweithredu sy'n

canolbwyntio mwy ar y dinesydd mewn llywodraeth leol. Yn bwysicaf oll, mae'n ymwneud ag adeiladu momentwm tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy.

Yr amgylchedd

Mae CLILC, llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi dros nifer o flynyddoedd mewn cymorth arloesi a thrawsnewid i lywodraeth leol, sy'n cynnwys:

- Adnodd pwrpasol i gefnogi cynnwys, cynnull a chyfranogi o ran heriau a rennir; ac
- Adnodd pwrpasol i wella rhagolygon entrepreneuraidd llywodraeth leol mewn perthynas â chyllid arloesi. Sicrhawyd cyllid newydd gan arianwyr ymchwil, ymddiriedolaethau a sefydliadau, a buddsoddwyd mewn cymorth arloesi yng Nghymru.

Mae perthynas gydweithredol gryfach rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru, sy'n arwain at flaenoriaethau a rennir cliriach, gan adeiladu ar y cytundeb partneriaeth strategol diweddar.

Mae capasiti a sgiliau arloesi mewn llywodraeth leol yn dychwelyd a gwelir eu bod ar gynnydd.

Gwybodaeth bresennol

Buddsoddir mewn prosiectau adnabod gwybodaeth llwyddiannus, naill ai drwy bobl ymroddedig neu bartneriaethau priodol gyda dinasyddion, academyddion a sefydliadau eraill sy'n ddwys o ran gwybodaeth (fel OPSI²).

Mae profion cyflym i ddeall yr addasiadau sydd eu hangen ar gyfer amgylcheddau lleol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn llwyddiannus, gan ddefnyddio methodoleg glir sy'n cael ei chymeradwyo gan ddinasyddion ac sy'n cynnwys dinasyddion.

Mae cymorth ac adnoddau (gan gynnwys cyllid) i alluogi'r defnydd o wybodaeth bresennol wedi cael eu profi a'u defnyddio'n effeithiol.

² <https://oecd-opsi.org/>

Mae cymorth ac adnoddau ar gael i werthuso'r broses o fabwysiadu gwybodaeth bresennol a sicrhau canlyniadau y gellir eu defnyddio.

Datblygu gwybodaeth newydd

Gwelwn gefnogaeth benodol ar gyfer syniadau a chyd-greu gyda dinasyddion.

Mae gwaith ymchwil a datblygu sy'n ystyried graddfa o'r cychwyn cyntaf yn cael ei wneud yn rheolaidd ac yn cael ei werthuso'n effeithiol.

Mae cymorth ac adnoddau (gan gynnwys cyllid) ar gael i alluogi defnydd systematig o wybodaeth newydd.

Erbyn 2035

Erbyn 2035, mae'r amgylchedd ar gyfer arloesi mewn llywodraeth leol wedi sefydlogi ac mae'r manteision yn glir. Mae llywodraeth leol ar sylfaen fwy cynaliadwy (neu ar y trywydd iawn yn sylweddol) ac mae dinasyddion yn glir ynghylch eu cyfraniad at y ffordd y mae llywodraeth leol yn gweithredu, ac yn cyfrannu'n weithredol yn hynny.

Yr amgylchedd

Mae CLILC, Llywodraeth Cymru a phob awdurdod lleol yng Nghymru wedi gwneud buddsoddiad arall dros nifer o flynyddoedd. Mae arloesi tymor hir bellach yn elfen fwy annatod o dirwedd llywodraeth leol.

Mae arbedion a wneir drwy waith atal effeithiol yn dechrau cael eu hailfuddsoddi yng ngweithgareddau llywodraeth leol.

Mae syniadau sy'n deillio o Gymru yn cael eu cydnabod yn rhyngwladol am eu heffaith a'u dulliau.

Mae cyllid arloesi yn llifo'n rheolaidd o ffynonellau amgen.

Mae'r canlyniadau'n golygu nad yw gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw yn gymaint o faich ag yr oedden nhw ar un adeg, ac mae llai o alw yn helpu i sicrhau bod llywodraeth leol yn fwy cynaliadwy.

Mae perthynas fwy cyfartal rhwng llywodraeth leol a dinasyddion wedi ailfeithrin ymddiriedaeth, ac mae pobl yn teimlo ymdeimlad o berchnogaeth ac asiantaeth dros eu lleoedd lleol.

Mae rôl gwasanaeth arloesi pwrpasol yn cael ei hadolygu a'i hail-fframio ar sail y cyddestun a'r heriau presennol. Efallai y bydd ei rôl yn cael ei diwygio, neu ei dileu os nad oes ei hangen mwyach.

Defnyddio gwybodaeth bresennol

Mae awdurdodau lleol yn gwybod ble i ddod o hyd i syniadau sy'n newydd iddynt, sut i'w gwerthuso a'u haddasu, a sut i'w cyflwyno'n briodol, ac maent yn gwneud hyn yn effeithiol heb gymorth ychwanegol.

Datblygu gwybodaeth newydd

Arbrofi dan arweiniad dinasyddion yw'r norm, gyda syniadau newydd yn deillio o gymunedau sy'n gwybod sut i gael gafael ar gymorth i brofi'r syniadau hynny'n effeithiol.

Yn olaf, nid ydym wedi gwneud argymhelliad cadarn y dylai'r cyllid a'r adnoddau a ddisgrifir uchod gael eu hymrwymo i sefydliad newydd a sefydlwyd i gyflawni gweithgarwch ymchwil ac arloesi ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth geiriau'n cael ei ddefnyddio'n fwriadol. Mae angen archwilio hyn ymhellach gyda rhanddeiliaid allweddol i ddod o hyd i gartref derbyniol lle gall gwaith newydd ddechrau'n gyflym.

Cyfeiriadau

Age Cymru. (2024). **Pam Ydyn ni'n Aros?** Wedi'i adalw o:

<https://www.agecymru.cymru/cymryd-rhan/ymgyrchoedd/pam-ydyn-nin-aros--oedi-mewn-gofal-cymdeithasol-yng-nghymru/>

Allas, T., Checinski, M., Dillon, R., Dobbs, R., Hieronimus, S. a Singh, N. (2018).

Delivering for Citizens: How to Triple the Success Rate of Government Transformations. Wedi'i adalw o: <https://www.mckinsey.com/industries/public-sector/our-insights/delivering-for-citizens-how-to-triple-the-success-rate-of-government-transformations>

Ashelford, R., Dalton, A., Turner, A., Lewis, J. a Bryant, P. (2019). **Innovation on Loan Practice Guide.** Wedi'i adalw o:

https://media.nesta.org.uk/documents/Y_LAB_-_Innovation_on_Loan_Practice_Guide_F1_web.pdf

Archwilio Cymru. (2024a). **Cynaliadwyedd Ariannol Llywodraeth Leol.** Wedi'i adalw o:

https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/cynaliadwyedd_ariannol_llywodraeth_leol.pdf

Archwilio Cymru. (2024b). **Yr Her i Wasanaethau Cyhoeddus Cymru** Wedi'i adalw o:

<https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Yr%20Her%20i%20Wasanaethau%20Cyhoeddus%20Cymru.pdf>

Archwilio Cymru. (2025). **Dim Amser i'w Golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.** Wedi'i adalw o:

https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Dim_amser_iw_golli_Gwersi_on_gwaith_dan_Ddeddf_Llesiant_Cenedlaethau_r_Dyfodol.pdf

Bayat, M., Kashkalani, T., Khodadost, M., Shokri, A., Fattahi, H., Ghasemi, F., Younesi, F. a Khalilnezhad, R. (2023). **Study on organisational transformation and health data.** Wedi'i adalw o:

<https://jpmph.org/journal/view.php?doi=10.3961/jpmph.22.394>

Beattie, M. a Buisman, H. (2025). **Innovation Labs: Three Articles.** Wedi'i adalw o:

<https://oecd-opsi.org/blog/innovation-labs-cant-do-it-all/>

Berditchevskaia, A., Peach, K. a Moss, E. (2025). **AI Social Readiness Process**. Wedi'i adalw o: <https://www.nesta.org.uk/project-updates/the-ai-social-readiness-process/>

Birchall, S. (2023). **Predictive analytics and homelessness reduction**. Wedi'i adalw o: <https://www.government-transformation.com/data/how-predictive-analytics-reduced-homelessness-by-40>

Bloomberg Cities. (2025). **Building a culture of innovation**. Wedi'i adalw o: <https://bloombergcities.jhu.edu/news/what-building-culture-innovation-looks>

Bristol One City. (2025). **About the One City Plan**. Wedi'i adalw o: www.bristolonecity.com/about-the-one-city-plan

Caley, L. (2025). **Aros am Gartref**. Wedi'i adalw o: <https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2025/04/Aros-Am-Gartref.pdf>

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. (2023). **Cynllun Llesiant Caerdydd 2023-2028**. Wedi'i adalw o: https://cardiffpartnership.co.uk/wp-content/uploads/2023/04/Local-Well-being-Plan-2023-28_FINAL_CYM.pdf

Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD). (2023). **Skills shortage vacancies doubled in Wales over six years**. Wedi'i adalw o: <https://www.cipd.org/en/about/press-releases/skills-shortage-vacancies-doubled-in-wales-over-last-six-years/>

Dinas Toronto. (2017). **City Planning Annual Report**. Wedi'i adalw o: <https://www.toronto.ca/wp-content/uploads/2018/06/971b-2017-city-planning-annual-report.pdf>

Coombes, M. A Rodrigues, G. (2023). **Canlyniadau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru**. Wedi'i adalw o: <https://www.centreforcities.org/reader/fare-outcomes/how-public-transport-use-differs-across-wales-and-why/#figure-10-welsh-cities-underperform-in-terms-of-public-transport-accessibility-to-their-main-economic-hubs>

Y Gynghair Diwyllaint, Iechyd a Llesiant. (2023). **Adnoddau Presgripsiynu Cymdeithasol**. Wedi'i adalw o: <https://www.culturehealthandwellbeing.org.uk/key-themes/social-prescribing>

Comisiwn Dylunio Cymru. (dim dyddiad). **Creu Lleodd yng Nghymru**. Wedi'i adalw o: <https://dcfw.org/cy/creu-lleoedd/>

Cyngor Sir y Fflint. (2025). **Manylion y penderfyniad: Rhaglen Mockingbird**. Wedi'i adalw o: <https://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieDecisionDetails.aspx?Id=12157&LLL=1>

Gabriel, M. (2014). **Making it Big: Strategies for Scaling Social Innovations**. Wedi'i adalw o: <https://www.nesta.org.uk/report/making-it-big-strategies-for-scaling-social-innovations/>

Gady, I., Djakonoff, V. a Best-Dunkley, L. (2025). **The Anticipatory Policy Cycle**. Wedi'i adalw o: <https://demoshelsinki.fi/the-anticipatory-policy-cycle/>

Gaukroger, C. (2025). **Budgeting for Wellbeing: International Approaches**. Wedi'i adalw o: <https://carnegieuk.org/publication/budgeting-for-wellbeing-international-approaches/>

Gonçalves, S. (2014). **The Effects of Participatory Budgeting on Municipal Expenditures and Infant Mortality in Brazil**. Mudiad Datblygu'r Byd, 53, 94–110. Wedi'i adalw o: <https://www.ipea.gov.br/participacao/images/pdfs/participacao/2014%20oramento%20participativo%20e%20mortalidade%20infantil.pdf>

Awdurdod Llundain Fwyaf. (2024a). **Gwerthusiad: LOTI**. Wedi'i adalw o: <https://www.london.gov.uk/business-and-economy-publications/evaluation-london-office-technology-and-innovation>

Awdurdod Llundain Fwyaf. (2024b). **Adroddiad gwerthuso LOTI**. Wedi'i adalw o: <https://www.london.gov.uk/sites/default/files/2024-01/LOTI%20Evaluation%20report%20final.pdf>

Griffiths, J. (2025). **Gohebiaeth gan John Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai, at Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Ymchwiliad i Lywodraeth Leol Ddigidol, 16 Mehefin**. Senedd Cymru. Wedi'i adalw o: <https://business.senedd.wales/documents/s163740/Paper%205%20Digital%20Local%20Government%20Correspondence%20with%20the%20Cabinet%20Secretary%20for%20Housing%20and%20Local%20G.pdf>

Horton, C. (2025). **Local authorities harness AI to transform services**. Wedi'i adalw o: <https://www.thinkdigitalpartners.com/news/2025/09/23/local-authorities-harness-ai-to-transform-services-and-free-up-staff-time/>

Gwasanaeth Gwella. (2022). **Delivering a Future for Scottish LAs**. Wedi'i adalw o: https://www.improvementservice.org.uk/__data/assets/pdf_file/0022/38074/delivering-a-future-for-scottish-las.pdf

Fforwm Dyfodol Rhyngwladol. (dim dyddiad). **Tri Gorwel**. Wedi'i adalw o: <https://www.internationalfuturesforum.com/three-horizons>

King's Fund. (dim dyddiad). **Lessons from the Wigan Deal**. Wedi'i adalw o: <https://www.kingsfund.org.uk/insight-and-analysis/projects/lessons-wigan-deal>

Kumpf, B. a Monteiro, B. (2024). **The Devious Dozen: 12 fallacies behind innovation lab failures**. Wedi'i adalw o: <https://oecd-opsi.org/blog/12-fallacies-innovation-labs/>

Large, O., Britton, L. a Iosad, A. (2025). **Governing in the age of AI**. Wedi'i adalw o: <https://institute.global/insights/politics-and-governance/governing-in-the-age-of-ai-reimagining-local-government>

Lent, A. (2025a). **Doing With: Reinventing public services in a time of crisis**. Wedi'i adalw o: <https://www.kingsfund.org.uk/insight-and-analysis/long-reads/doing-with-reinventing-public-services-time-crisis>

Lent, A. (2025b). **Canolfan Jean Bishop**. Wedi'i adalw o: <https://www.socialenterprise.org.uk/health-and-social-care-case-studies/the-jean-bishop-centre-chcp/>

Lent, A. ac Oglethorpe, K. (2023). **Community Appointment Day**. Wedi'i adalw o: <https://www.newlocal.org.uk/articles/community-appointment-day/>

Cymdeithas Llywodraeth Leol. (dim dyddiad). **Learning, Innovation and Capacity Fund**. Wedi'i adalw o: <https://www.local.gov.uk/pas/topics/infrastructure/nsips/learning-innovation-and-capacity-fund>

Partneriaethau Lleol. (2024). **Federation Appendix**. Wedi'i adalw o: <https://democracy.blaenau-gwent.gov.uk/documents/s17741/Appendix%202.pdf>

Bwrdeistref Newham yn Llundain. (2021). **Permanent Citizens' Assembly Announcement**. Wedi'i adalw o: <https://www.newham.gov.uk/news/article/656/newham-launches-the-country-s-first-permanent-citizen-s-assembly-this-weekend>

Swyddfa Technoleg ac Arloesi Llundain (LOTI). (dim dyddiad). **Trosolwg LOTI.** Wedi'i adalw o: <http://loti.london/>

McCarthy, J. (2025). **Erthygl newyddion ar ganlyniadau gordewdra mewn plentyndod.** Wedi'i adalw o: <https://www.bbc.co.uk/news/articles/cy8rr488g7do>

McKernan, B. (2025). **GCSE results: joy at Maesteg School but Wales still lagging behind England.** Wedi'i adalw o: <https://www.theguardian.com/education/2025/aug/21/gcse-results-joy-at-maesteg-school-but-wales-still-lagging-behind-england>

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. (dim dyddiad). **Cynllun Gwasanaeth Bwyd 2024-2025.** Wedi'i adalw o: <https://www.merthyr.gov.uk/media/10110/cynllun-gwasanaeth-bwyd-2024-2025.pdf>

Monteiro, B. a Kumpf, B. (2023). **Innovation labs through the looking glass: Experiences across the globe.** Wedi'i adalw o: <https://oecd-opsi.org/blog/innovation-labs-through-the-looking-glass/>

Cymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol. (2024). **Briefing on the English Devolution and Community Empowerment Bill.** Wedi'i adalw o: <https://www.nalc.gov.uk/resource/nalc-briefing-on-the-english-devolution-and-community-empowerment-bill>

Naylor, C. a Wellings, D. (2019). **The Wigan Deal Transformation Report.** Wedi'i adalw o: <https://www.kingsfund.org.uk/insight-and-analysis/reports/wigan-deal#how-the-transformation-happened>

Nesta. (2017). **Innovate to Save.** Wedi'i adalw o: <https://www.nesta.org.uk/project/innovate-save/>

Nesta. (2025). **Public AI Assurance.** Wedi'i adalw o: <https://www.nesta.org.uk/project/public-ai-assurance/>

Nesta. (dim dyddiad). **Canolfan Dylunio Cyd-ddeallusrwydd.** Wedi'i adalw o: <https://www.nesta.org.uk/project/centre-collective-intelligence-design/>

New Philanthropy Capital (NPC). (2024). **The Three Horizons Framework.** Wedi'i adalw o: <https://www.thinknpc.org/resource-hub/systems-practice-toolkit/the-three-horizons-framework/>

OECD. (2020). **Innovative Citizen Participation and New Democratic Institutions.** Wedi'i adalw o: https://www.oecd.org/en/publications/innovative-citizen-participation-and-new-democratic-institutions_339306da-en.html

Cynrychiadau Omidaze. (dim dyddiad). **The Talking Shop**. Wedi'i adalw o: <https://www.omidaze.co.uk/the-talking-shop/>

Y Bartneriaeth Llywodraeth Agored. (2017). **Paris Commitments**. Wedi'i adalw o: <https://www.opengovpartnership.org/members/paris-france/commitments/PAR0001/>

Participatory City. (2023). **We Are Everyone**. Wedi'i adalw o: <https://www.weareeveryone.org/>

Phillips, A. ac O'Brien, A. (2024). **Beyond the Sticking Plaster**. Wedi'i adalw o: https://demos.co.uk/wp-content/uploads/2024/10/Beyond-the-sticking-plaster_2024_Oct.pdf

Randle, A. a Studdert, J. (2025). **Local Government Reorganisation: Art of the Possible**. Wedi'i adalw o: <https://www.newlocal.org.uk/articles/local-government-reorganisation-art-of-the-possible/>

Ross, M. (2022). **Healthier Democracies: Gdansk Case Study**. Wedi'i adalw o: <https://publicagenda.org/wp-content/uploads/Healthier-Democracies-Gdansk.pdf>

Ruddle, N. a Harvey, S. (2022). **How Can 2025 and the North Wales Public Service Lab Help Tackle Poverty?** Wedi'i adalw o: <https://www.audit.wales/sites/default/files/2022-10/Nina%20Ruddle%20and%20Sarah%20Harvey%20-%20How%20can%202025%20and%20the%20North%20Wales%20Public%20Service%20Lab%20help%20to%20tackle%20poverty.pdf>

Schumacher, C. (2019). **Cyllideb Llesiant Seland Newydd**. Wedi'i adalw o: <https://theconversation.com/new-zealands-well-being-budget-how-it-hopes-to-improve-peoples-lives-118052>

Llywodraeth yr Alban. (2024). **Participation Handbook**. Wedi'i adalw o: <https://www.gov.scot/publications/participation-handbook/pages/5/>

Sibieta, L. (2024). **Sliding education results and high inequalities should prompt big rethink in Welsh education**. Wedi'i adalw o: <https://ifs.org.uk/news/sliding-education-results-and-high-inequalities-should-prompt-big-rethink-welsh-education>

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Deddf Senedd Cymru. Wedi'i adalw o <https://www.legislation.gov.uk/asc/2021/1/contents>

TransformGov Talks. (2025). **TransformGov Talks: Fifth Event [Fideo]**. YouTube. <https://www.youtube.com/watch?v=KNDhwNepyq0>

Llywodraeth y DU (2020). **Treorchy crowned UK's Best High Street**. Wedi'i adalw o: <https://www.gov.uk/government/news/treorchy-crowned-uk-s-best-in-the-great-british-high-street-awards>

Llywodraeth y DU (2024). **Join Us: Reforming the State Together**. Wedi'i adalw o: <https://www.gov.uk/government/collections/join-us-reforming-the-state-together>

Llywodraeth y DU (2025a). **One Big Thing Initiative: Innovation Experiments**. Wedi'i adalw o: <https://moderncivilservice.blog.gov.uk/2025/05/29/celebrating-a-wave-of-innovation-scalable-experiments-from-the-one-big-thing-initiative/>

Llywodraeth y DU (2025b). **Test and Learn Approach Announcement**. Wedi'i adalw o: <https://www.gov.uk/government/news/government-to-take-a-test-and-learn-approach-with-spending-on-ai-and-digital-to-push-innovation>

Llywodraeth y DU (2025c). **Fairer Funding Reform for Councils**. Wedi'i adalw o: <https://www.gov.uk/government/news/fairer-funding-for-councils-across-the-country-in-major-reform>

Llywodraeth y DU (2025d). **The Seven Lenses of Transformation**. Wedi'i adalw o: <https://www.gov.uk/government/publications/7-lenses-of-transformation/the-7-lenses-of-transformation>

Ymchwil ac Arloesi y DU. (2025). **Cronfa Partneriaethau Arloesi Lleol**. Wedi'i adalw o: <https://www.ukri.org/opportunity/local-innovation-partnerships-fund/>

URBACT. (2017). **Participatory Budgeting Good Practices**. Wedi'i adalw o: <https://urbact.eu/good-practices/participatory-budget>

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. (2025). **Position Paper: The Purpose and Functions of Local Government in Wales**. Wedi'i adalw o: <https://wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2025/04/Position-Paper-The-Purpose-and-Functions-of-Local-Government-in-Wales-.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2021). **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Cymru (Crynodeb Naratif)**. Wedi'i adalw o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/pdf-versions/2023/6/2/1687863120/tueddiadaur-dyfodol-2021.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2024). **A yw Cymru'n Mynd Ati'n lawn i Arloesi?** Wedi'i adalw o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-12/a-yw-cymru-n-mynd-ati-n-iawn-i-arloesi.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2025a). **Datganiad Ysgrifenedig: Deallusrwydd Artiffisial a Thrawsnewid Digidol** Wedi'i adalw o: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-deallusrwydd-artiffisial-thrawsnewid-digidol-yng-ngwasanaethau-cyhoeddus>

Llywodraeth Cymru. (2025b). **Datganiad Ysgrifenedig: Ffedereiddio Llywodraeth Leol (Blaenau Gwent a Thorfaen).** Wedi'i adalw o: <https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-ffedereiddio-llywodraeth-leol-yng-nghynghorau-bwrdeistref-sirol-blaenau>

Llywodraeth Cymru. (2025c). **Prif Ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru.** Wedi'i adalw o: <https://www.llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-prif-ganlyniadau-ebrill-2024-i-fawrth-2025-html>

Llywodraeth Cymru. (2025d). **Cytundeb Partneriaeth Strategol Drafft gyda Llywodraeth Leol.** Wedi'i adalw o: <https://www.llyw.cymru/draft-strategic-partnership-agreement-local-government-html>

Llywodraeth Cymru. (2025e). **Rhaglen Waith y Grŵp Cyngori ar Arloesi Democratiaeth.** Wedi'i adalw o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2025-09/innovating-democracy-advisory-group-work-programme.pdf>

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC). (2024). **Cynllun Peilot Llwybrau at Gynllunio.** Wedi'i adalw o: <https://www.wlga.cymru/wlga-announces-pathways-to-planning-pilot-in-wales>

Atodiad

Fel sy'n aml yn wir gyda gwaith fe hyn, mae mwy o gwestiynau'n codi nag atebion. I wneud yn siŵr nad ydym yn diystyru'r llinynnau nad ydym wedi llwyddo i roi sylw iddynt yn llwyr, rydym wedi'u casglu yma. Nid ydynt mewn unrhyw drefn benodol, dim ond casgliad ydyw o'r pethau y mae angen inni eu harchwilio ar yr adeg briodol, eu golygu ac ychwanegu atynt dros amser.

1. Efallai fod y cymhellion economaidd i beidio ag arloesi yn rhy uchel - mae angen i'r arbedion sy'n cronni yn sgil y system, nid gan gychwynnwr y gwaith ataliol, gael eu gwobrwyo mewn ffordd sy'n annog arloesi. Sut ydym yn gwneud hyn?
2. I ba raddau y mae gweledigaethau H3 yn cyflawni mwy o gynaliadwyedd i lywodraeth leol? Sut gellir mesur hyn?
3. I ba raddau y mae angen i'r metrigau perfformiad presennol a ddefnyddir gan lywodraethau lleol newid? Sut byddwn ni'n gwybod ein bod ni'n llwyddo? A yw'r dyletswyddau perfformiad statudol presennol yn ddigon, neu a oes angen mesurau newydd arnom ni ar gyfer cydweithio, atal a chyfranogiad dinasyddion?
4. I ba raddau y mae angen inni sicrhau cefnogaeth weidyddol a sut ydych chi'n mynd i sicrhau hyn yn ddi-oed?
5. Beth sy'n digwydd yn yr Alban a pha wersi y gall Cymru eu dysgu o'r gwaith hwn?
6. Sut ydych chi'n mynd i'r afael â'r heriau mewn meysydd polisi unigol? Er enghraifft - ydych chi'n edrych yn benodol ar dai? Neu ydych chi'n ystyried ardaloedd lleol fel lleoedd holistaidd ac yn mynd i'r afael â'r holl heriau ar yr un pryd? Lle neu Bolisi?
7. A yw'n well gwneud buddsoddiad mawr mewn nifer fach o ardaloedd sy'n creu'r heriau mwyaf ar hyn o bryd? Neu ganiatáu i nifer o ardaloedd ffynnu ledled Cymru?
8. Pwy sy'n penderfynu sut olwg ddylai fod ar y 'weledigaeth' ar gyfer llywodraeth leol yn 2035 - CLILC, Llywodraeth Cymru, neu bob cyngor gyda'i ddinasyddion?
9. Sut mae osgoi gwneud hyn yn ymarfer arall o'r brig i lawr, yn hytrach na'i wreiddio'n gadarn mewn democratiaeth leol?

10. Beth mae'n ei olygu'n ymarferol i ganolbwyntio ar ganlyniadau a bod yn agnostig o ran cyflawni? Pwy sy'n gyfrifol os yw'r ddarpariaeth yn cael ei rhannu neu ei rhoi ar gontract allanol?
11. O ystyried y cyfyngiadau ariannol presennol, o ble y daw'r arian i ariannu arbrofi, rhedeg gwasanaethau mewn dwy ffordd, ac arloesi yn y tymor hir? Ai Llywodraeth Cymru ddylai hyn fod neu a fyddwn yn gweld gwell ymgysylltiad a pherfformiad os byddwn yn mabwysiadu model aelodaeth fel LOTI?
12. Sut ydym ni'n meithrin y sgiliau angenrheidiol mewn llywodraeth leol (yn enwedig digidol a chynllunio) pan fyddwn eisoes yn cael trafferth llenwi swyddi gwag a chystadlu â'r sector preifat?
13. Os oes angen buddsoddiad dros nifer o flynyddoedd i arloesi, sut mae perswadio Llywodraeth Cymru i symud oddi wrth gylchoedd cyllido blwyddyn?
14. Beth allwn ni ei ddysgu o Infuse?
15. Sut mae cynnwys dinasyddion yn ystyrion yn y gwaith o lunio gwasanaethau, y tu hwnt i arolygon ac ymgynghoriadau?
16. Pa fecanweithiau fydd yn sicrhau cynhwysiant - bod gan gymunedau gwledig, difreintiedig a lleiafrifol lais cyfartal?
17. Sut mae newid disgwyliadau'r cyhoedd o "wasanaethau a wneir i mi" i "wasanaethau a wneir gyda mi a gennyf i"?
18. Sut caiff tensiynau rhwng blaenoriaethau llywodraeth leol a blaenoriaethau gweinidogol eu datrys?
19. Beth yw rôl Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn y weledigaeth hon, a sut bydd atebolrwydd lleol yn cael ei gynnal os bydd mwy o benderfyniadau'n cael eu gwneud yn rhanbarthol?
20. Sut mae gwneud llywodraethu'n symlach ac yn fwy tryloyw i ddinasyddion, yn hytrach nag yn fwy cymhleth?
21. Pa oddefiant i fethiant fydd Llywodraeth Cymru, cynghorwyr a'r cyhoedd yn ei gael os na fydd prosiectau "profi a dysgu" yn gweithio?
22. Sut mae sicrhau bod arloesedd yn cael ei ledaenu'n gyflym ar draws pob cyngor, yn hytrach nag ailddyfeisio'r olwyn 22 o weithiau? Sut mae hyn yn cyd-fynd yn gyfforddus â'r angen i leoedd lleol bennu eu hagendâu eu hunain a datblygu eu hatebion eu hunain?
23. A ddylai Cymru sefydlu rhywbeth tebyg i LOTI (Swyddfa Technoleg ac Arloesi Llundain), ac os felly, pwy sy'n ei hariannu a'i llywodraethu?

24. Beth mae “cynaliadwyedd” yn ei olygu yn y cyd-destun hwn - cydbwysedd ariannol, llai o alw, mwy o ymddiriedaeth gan ddinasyddion, neu bob un o'r uchod?
25. Sut ydym ni'n cydbwyso nodau tymor hir (2035) â gofynion tymor byr trigolion sydd angen gwasanaethau nawr?
26. Beth all Cymru ei ddysgu o Fil Datganoli Lloegr?³

³ <https://www.nalc.gov.uk/resource/nalc-briefing-on-the-english-devolution-and-community-empowerment-bill.html>

Cydnabyddiaeth

Hoffai'r awdur gydnabod cymorth a chefnogaeth y tîm yng Nghanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wrth ddrafftio'r papur hwn, yn benodol: Helen Tilley, Jack Price, Yasmine Ghorayeb, Ioana Filipas a Dan Bristow.

Hoffwn ddiolch hefyd i'r bobl ganlynol am eu cyngor, eu harweiniad, eu her a'u hadborth: Andy Regan, Angharad Dalton, Max Caller, Mary Ann Brocklesby, Derek Walker, Darren Price, Jo Hendy, Eddie Copeland, Toby Baker, Jess Blair, Chris Bolton, Paula Walters, Stephen Vickers, Andrea Prosser, Omar Idris, Owen Wilce, Petranka Malcheva, Gareth Newell, John Rose, Bill Sharpe a Lisa Trigg.

Yr awduron eu hunain sy'n gyfrifol am unrhyw gamgymeriadau neu hepgoriadau.

Manylion yr Awduron

Mae **Rob Ashelford** yn ymgynghorydd arloesi cymdeithasol llawrydd ac yn gyn-Bennaeth Nesta Cymru.

newydd.org.uk

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Jack Price

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

OGL Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored



**Wales Centre
for Public Policy**
**Canolfan Polisi
Cyhoeddus Cymru**